This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

36

Y

WENYNEN BA

NEU

GASGLIAD O

GANIADA

BUDDIOL A MOESOL.

Wedi eu cymmeradwyo gan Dr S. Lewis, Hugh Williams, R. Hughes (Felinfach), Parch. Geronwy Owen, D. Thomas, D. Davies, Parch. D. Davies, Walter Davies, Parch. D. Parch. Castell Hywel, W. Jones, Hardd Llanrhaeadr, John Parry, Llanfechan; J. John Thomas, Penrhiwlas, &c.

LLANBWST

ARGRAFFWYD GAN T. O. JONES.

Y

WENYNEN BACH:

NEU

GASGLIAD

O

GANIADAU,

BUDDIOL A MOESOL.

Y gain enwog WENYNEN,—yn wisgi,
Ddaw'n ysgafn ei haden;
A mêl, rhydd beunydd i ben,
O rywiog ffrwyth yr Awen. IOAN.

AIL ARGRAFFIAD.

LLANRWST:

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.

1840.

RHAGYMADRODD.

Fy Hynaws Gydwladwyr,

Wele'r WENYNEN wedi dyfod i'ch plith; yn llwythog o fêl, a gasglodd o'r blodau pereiddiaf a ymdlangosodd yn ein gwlad, er'a pum can' mlynedd yn ol. Hi a sugnodd ei melus Ganiadau, allan o waith y Beirdd enwog hyn: Dr. S. Cent, S. Lleyn, Hugh Morris, R. Hughes, (Ceint Bach) Parch. Goronwy Owen, D. Thomas, (D. Ddu o'r Eryri) Parch. Walter Davies, Parch. D. Davies, Castell Hywel, W. Jones, (Bardd Môn) John Parry, Llanelian, John Thomas, Pentrefoelas, &c. Mae'r holl Feirdd uchod yn rhy adnabyddus ac enwog i sefyll mewn angen am unrhyw glod oddiwrth neb, ac yn enwedig oddiwrthyf fi. Darllenwch eu gwaith, a chwi a addefwch eu bod nwchlaw canmoliaeth. Am hyny dymunaf i Dduw eu bendithio er eich presenol a'ch tragywyddol les: ac am faddeuant genych am ryfygu rhoddi dim o'm gwaith fy hun yn eu plith.

Ydwyf yn serchog yr eiddoch,

un gwael o'r Genedl,

R. HUMPHREYS.

Caerfyrddin, Ebrill 5, 1823.

BODLEIAN LIBRARY 1 APR 1941

ARWEINIAD I MEWN.

WELE'r WENYNEN yn llawn a llawen,
A mêl dan ei haden ehedodd i'n plith;
Diferiad ei dilliau, sef melus ganiadau,
Ein gyddfau i'r geiriau agorith.

Hi gasglodd yn ffyddlon o Fôn, ac o Arfon,
O Ddinbych, a Meirion, waith mawrion i'n mysg;
Yn Fflint, a Threfaldwyn, coeth yma ca'th Emyn;
Trwy fyrddau Tre' Fyrddin tro'i fawrddysg.

Hi sugnodd o flodau Sion Lleyn, a Chent yntau,
Gwaith Hughes o'r un moddau, yw'r seigiau a'r sudd;
Lle cafodd yn helaeth, mêl ydoedd mawl-odiaeth,
Sef peraidd gerddoriaeth i'r ddwyrudd.

Hi brofodd ganiadau Huw Morys am eiriau,
Melysaf o'r llysiau a nodai i ni:
A gwaith G'ronwy Owen, am burdeb yr Awen,
Os Iaith Gomer gywrain a geri.

Dafydd Thomas synwyrgu, un blithog am blethu,
A'i ganiad yn cynnu i fynn'n ddifai;
Gwaith puraidd John Parry, sydd hollol ddiwegi,
A'r Foelas i'w raddu hi roddai.

Ca'dd flodau pur hyfryd gan William Jones hefyd,
A Dafis un ffunud gwŷr diwyd a doeth,
Rhyw doraeth a dyrodd, ac yma gosododd,
Ymdrechodd, hi gafodd iawn gyfoeth.

Gwaith Walter wr hyfryd, ac Edward Jones hefyd
Hen eilwyr celfyddyd drwy'n bywyd yn bêr,
Nid cysglyd y casglodd a rhwyddaidd y rhoddodd;
Dadseiniodd hi ganodd i'n gwiw-Ner.

O erddi, dyffrynoedd, a bryniau, mynyddoedd,
Y llysiau a sugnodd, gwiw gludodd yn glau;
Y mêl yn ddiogel i ddyfod i'ch gafel,
Wyr isel ac uchel o achau.

Na feied neb arni o herwydd ei syrthni,
Hi ddigiodd wrth ddiogi gan boeni heb boll;
I gasglu pur ganiad yn ol eich chwennychiad.
Mae bonno i ddywad yn ddiwall.

Gwyr goleu o'r galon a'm barnant yn uniaw,
A gwelant yn gyson fel meibion, fy mai.
Derbyniaf eu cerydd mewn caniad ar gynnydd,
Pan ddelo drwy DDUFYDD yn ddifai!

Ond am y gwyr yna, na's gallant mo'm gwella,
Os beiant hwy arna' mi chwardda'n wych iawn,
Nes byddo i'm cynwr' i ddiffodd eu dwndwr,
A Newid eu cyffwr yn gyffawn.

GWENYNEN geinwen ei gwedd,—aur lwythog,
Ar lethr y Gynghanedd;
Dan rwyfo â dawn ryfedd,
A mêl o hyd mawl a hedd.

Profwch a mynnwch y mêl,—a berthyn
I borthi rhai uchel:
Gwir roesaw i'r gwr isel,
Fynnu'i ran o'r fan yr êl. *R. H.*

Ffrwythau o lysiau melysion,—peraidd,
Waith purwych Awduron,
A geisiant dynu'n gyson,
Fêl o'r Iaith i foll'r Ion.

Gwaith dwys pur rwyddlwys pereiddlân—ar fwrdd
O wir farddawl amian,
Gwelir caiff Cymro gwiwlan,
Fêl yn ffiwch o gwch y gân.

IOAN AP HYWEL.

ANNOGAETH I DDIWYDRWYDD.

MAE'r morgrug a'r gwenyn egniol,
Mewn ymdrech gwirfoddol am fyw,
Darparant mewn amser priodol
Y pethau sy'n rheidiol i'w rhyw:
Eu siamplau sydd deilwng eu dilyn
Na fydded un diogyn ar dir,
Am deyrnas Duw'r nefoedd gwnawn ofyn,
A gorchwyl *da* wedi'n, yn wir.

Mae *diogi* yn erbyn pob cysur,
I'w weled yn eglur yn awr;
Mae'n erbyn ein iechyd corphorol,
A phob peth sydd lesol ar lawr;
Mae'n attal pob addysg dda fuddiol,
A deall gwaith dwyfol ein Duw;
Mae *diogi* o'n deutu yn gwilio,
Am demtio a rhwydo pob rhyw.

Mae diogi'n ddrws llydan rhagorol,
I wŷniau corphorol craff rai;
Mae'n agor i lydan dylodi,
I dwyll a direidi di-drai;
Mae'n attal effeithiau pregethau,
Ac attal gweddiau at Dduw;
Mae'n tynnu mawr bwysau ar blwyfydd,
Mewn gofid mae beunydd yn byw!

Ymrodded trigolion y gwledydd,
I annog diwydrwydd da iawn;
A bydded pob enaid yn ufudd,
I eiriau Duw'n llywydd yn llawn:
A rhodded pob perchen ar foddion,
Rhyw waith i dlodion heb lai;
Gweddiwn am ddyfod o'n cystudd,
Duw gwared ni beunydd o'n bai *R. H.*

ENGLYNION O GOFFADWRIAETH.

AM

THOMAS EDWARDS, Nant

YR awen wych, oer iawn wedd,—a gollodd
Ei gallu a'i mawredd;
Wyli fyth ar ael ei fedd,
Heb un gair tra bo'n gorwedd.

Angylion gwynion ddisgynant,—yn llu,
Hwy 'n llawen a'i gwiliant,
A diogel y dygant,
I fawrodd nef, fardd y Nant!
JOHN PARRY.

GAIR-DA ro'i i gywirdeb,—yn benna'
Ni dderbyniai wyneb,
A rho'i sen i drawsiweb,
A'i ganiad yn anad neb.
WILLIAM JONES, Bardd Môn.

Er cymmaint fu'r braint a'r bri—yr anian
A'r enwog farddoni;
Mae 'r awen, a'i haceen hi,
Man tawel yma'n tewi.
JOHN THOMAS, Pentrefoelas.

CYWYDD,

YN

COFFA DYODDEFAINT CRIST.

Y Gwr uwch ben, goruwch byd,
Goruchaf, a'm gwir iechyd;
Ein Ceidwad hoff a'n Proplwyd,
Ein Duw o nef, a'n dyn wyd:
Hebod ni allwn rodiaw,
Na throi nag yma na tharaw;
Na chlywed, na cherdded chwaith,
Ddaw yn enwog, ddyn unwaith!
Na chael rhadau o'r ddaearen,
Na ffrwyth ar ddaear na phren;
Na dyn byw, na da, na budd,
Na lluniaeth, na llawenydd.
Arglwydd gwyn, nid oes genni';
Un tad oll ond tydi.
Nid oes un Arglwydd gwyn, gwych,
Un dyn fwyn ond a fynych.
Mawr yw Arglwydd cin llwyddiant,
Troaist dy bleth dros dy blant.
Pan ddaethost, aur bost, i'r byd,
Gor'sgynwr â'r gras gennyd!
Gwedi'r afal drei Efa,
O'r bywyd teg a'r byd da;
A'i gyru hi, a gôr hon,
I dywyllwch fal deillion:
Ag i'r un gist, gerwyn gau,
Eu plant a'u heppil hwyntau;
Prynu wnaethos heb fostiaw,
Pryn trwm fu y pryniad draw

Ac addawodd, o'i fodd fu,
Ben-Brenin, Oen, i brynu;
Gwnaeth Suddas, cyn ei soddi,
Du farn o tan dy frad di;
A'r Iuddewon ar ddeuair,
A'th dal, Fab doeth loyw Fair:
Dy rwymo, dan grio'n grych,
Dy hoeliaw fab Duw haelwych;
Duw maddeu ger bron lluoedd,
Dy gnawd oll,—dy genad oedd;
A rhoi ar dy ben, Duw Frenin,
Goron bleth, drain gerwyn blin:
Y ddaear oll, (da Wr wyd,)
A grynodd pan geronwyd:
Dwy o'r hoelion dur helaeth,
I'th ddwylaw, i'th hoeliaw aeth;
A'r drydedd o'r direidi,
Ae yn dy draed un Duw dri!
Dy gerth a red dan dy fron,
Un Duw gwyl yn dy galon!
Ac wrth weled pob caledi,
A'r enaid dyn, a ro'i di;
O! Dduw gwyn, o briddyn brych,
Ydoedd drwm draw dy edrych!
Ar dy gur a'th ddolurion,
A'th friw a gefaist i'th fron!
A'th goron, a'th wirion-waed,
A'th boen draw i'th ben a'th draed!
Rho i ni, rhag pob rhyw annerth,
Iesu nef, yn ras a nerth;
Fy holl fai, a'm drygioni,
Yma Dduw, maddeu i mi.

Dr Sion Cent, yn y 13 Ganrif.

CYWYDD Y GREADIGAETH.

PWY luniodd, fesurodd ser,
Ac a ledodd y gloywder,
Môr didor mawr dywedwch,
Oddiar y traeth, a'i ddwr trwch?
Llunio daear llawn dyallt,
Creua hwn y croyw a hallt,
Caf le mellt yn cyflym wau,
Ymeiliant â'r cymylau,
Difeth orchymyn Dofydd,
Eilw y rhai'n i oleu rhydd;
Dywedant, Nid da oedi,
(I'w wiw lân arch) Wele ni;
Pwy bian'r llais, pybur llawn,
A rwygodd i lawr eigiawn,
Trwst oerlais, mal trist erlid,
Trwy un llef taranau llid?
Pwy law fu'n lluniaw llenydd,
Glana' des, goleuni dydd,
Haul, lloer, ser, pobaderyn,
Gwyllt, gwellt, gwâr, daear a dyn?
Lluoedd caf i'r ffurfafen,
Cynt yw eu rhwysg, cantwyr hen:
Toif hygar, adar, ydynt,
Troen' o gylch tra yn y gwynt:
Heigian'r mŷr, hygar eu modd,
Pellenig,—pwy a'u lluniodd?
Ef a luniodd filiynau
Afrifed o bryfed brau;
Cedyrn ymlusgiaid coedydd,
Lle mae'r rhai'n y llam yr hŷdd;

Carnolion gwylltion a gwâr,
Diau er hiliaw dacar,
Rhoes i'r rhai'n cain fyrdd cant
I gynnal ei ogoninnt
Pob lle'n deg pob llwyn a dail,
Hyfrydwch y fawr adail;
Y lliwiau, lluniau llonwych,
Gwyrdd, rhuddion, gwynion, a gwych,
Dolydd, a'r coedydd deiliog;
Y bronydd a'r creigydd crog,
Mynyddau mal tyrau têg
I'r adail hardd oreu-dêg.
Ti yw'r Pen, wyt aer y parch,
A gafodd neb dy gyfarch?
Am euro nef, mawr iawn wyd,
Dy waith adwaen, doeth ydwyd,
Yn dàl y ser dy law sydd,
Mawr a mân, môr a mynydd.
Glanach yw dy ragluniaeth,
Llaw'n awr sy'n llywio a wnaeth,
Maith helynt y trym-wynt trodd;
Dy ddwrn a gaed oddiarnodd;
Gosod i'r môr wregysau,
(A'i ddwr gwyllt) dy ddor i'w gau;
Cadwyno'r tân, glân dy glod,
Rhoi o mewn â rhwymynod:
Rhwymo'r gwres yn haul tesu;
Hoelio ynghyd y byd, bu,
Dy gyfoeth diau gafwyd:
Môr a thir, byrddir â bwyd,
Porthi â bwyd fo'n perthyn,
(Awdwr doeth) adar a dyn.
Gwiwlwys, a diogelwch
Y pryfaid, yw llaid y llwch;

Creigiau'n anneddau i'r naill,
Y gweryd a ga eraill:
Pawb i'w lle a'u cyfle caf,
Ddewiswyd yn addasaf.
Enwog, gyfoethog weithydd,
Llaw y saer yn llywio sydd:
Cyfyd i'r lan fo gwanaf,
I lawr yn dwyn cawr y caf:
Dial y trais a'i dâl trwm,
I'r cedyrn yn rhoi codwm.
Cadarn yr wyt yn barnu,
Dewr a llesg, daear a'i llu:
Saif neb â'th wrthwynebydd,
Lle byddych, a fynnych fydd,
Doi á niwaid du newyn,
Beichiau tost am bechod dyn;
Rhifi i gledd y rhyfel,
Ac wrth dy air y sai'r sêl;
Agori ddrysau gweryd
I guddio gweilch, beilch y byd,
Pob awdurdod, pob dewrder,
Allu a nerth sy'n llaw Nêr;
Da fydd dwyn dy fodd di,
Da i filoedd dy foli,
Am eglur-waith, mawr-waith mâd,
Oll o'r bron a llwyr bryniad.
Pwy rydd ei glod, peraidd glân,
Digolliant, yn deg allan?
Testyn, cadeir-ddyn, dewr-ddoeth,
A thrig hwn i athraw coeth:
Pob tafod i'w fawr-glod fo,
A chalon i wych eilio,
Dyfal i foli Dofydd,
Rhedo dawn ar hyd y dydd. S. LLEYN.

CYFFES HUW MORYS.

AR EI

GLAF WELY.

DUW Tad fy Mhenadur, clyw gyffes pech-
Rhy fyr a rhy ammhur o fesur wyf fi, (adur,
I gyraedd egoryd porth dinas y bywyd,
Heb gymmhorth dy Ysbryd di-asbri.

Mi fum mor ddiystyr a rhodio'n rhy brysur,
Hyd lwybrau troseddwyr llwyr antur lle'r
e'nt;
Ti welaist, ti welinad alla'i roi cyfri',
Pan fy'ch di'n rheoli fy nhaient.

Drwyddo'i'r edrychaist, a manwl i'm chwiliaist
Nid cyfion i'm cefaist, pan deimlaist fi'n dost,
Cerddediad fy nghamrau, a phob digwyddiad-
I'm bywyd o'm beiau, wybuost. (au

Nid oes un gair parod o'm deufin ya dyfod,
Nad wytti'n ei wybod yn neddfod y ne';
Dyelli feddylfryd fy nghalon cyn symud
Fy nhafod i 'myryd am eirie'.

Mae trefn dy lywodraeth uwchlaw pob dysg-
eidiaeth,
Rhy ryfedd wybodaeth yw'r mawr-waith i mi
Nid wyf mor ddeallus o synwyr dosparthus,
A medru'n ddiwarthus oddiwrthi.

Cyn llunio'r holl bethau a wnaeth dy law dde-
hau
Ti wyddit a fyddai yn oleu iawn waith,
Pan wnaethost dy amcan, ti welaist y cyfan,
O'th unfan wir anian ar unwaith.

Prif Arglwydd trugarog i'r gwirion dihalog,
A brenin mawr arfog at euog wyt ti;
Mi glywa fy nghalon am dorri d'orchmynion,
(Oedd union a dyfnion) yn d'ofni.

O cheisiai ochelyd a chilio 'ddiwrth d'Ysbryd,
P'le gallai gymeryd taith ynfyd o'th wydd,
Pob cyflen o dywyllwg, pob gweithred ddirgel-ddrwg,
Sydd amlwg i'th olwg, waith hylwydd.

Os dringa'i tu a'r nefoedd, 'rwyt yno'n benlluoedd;
Os myn'd i'r dyfnderoedd oer neuadd ar naid,
Yno i'm canfyddit, tros gof ni'm gollyngit,
Canlynit, 'mofynit am f'enaid.

Pe d'wedwn, mi 'mguddia, mewn tywyll y taria'
Ti welit fy nhrigfa'n anghyfa'n fy nghylch,
Mae'r nos yn oleuni fel haner dydd iti,
I ganfod fy ngwegi'n fy ngogylch!

Fy neunydd yn anfad oedd eglûr i'th lygad.
Cyn bod fy nechreuad o greuad un grair,
I'th lyfr ysgrifenwyd yr amser i'm lluniwyd,
A'r modd i'm darparwyd o'r purair.

Ar ol fy nechreuad rhoi'st i mi rwydd roddiad,
I ynnill mawr gariad, wiw brofiad heb rus;
P'le bynag yr elwn, mi gawn a ddymunwn,
Dau mwy nag â haeddwn, 'n gyhoeddus.

Rhoi'st im' ddealltwriaeth i wybod rhagoriaeth,
Rhwng ofer gwmniaeth, a'r bregeth fawr bris.
Lle ce's y gwirionedd, am sail y ddwy fuchedd
A rhinwedd ei ddiwedd, o'i ddewis.

Wrth ddarllen, ce's weled fod nef i'r diniwed,
A chosp a chaethiwed o gerdded ar gam,
Di esgus iawn ydwy, at amser ofnadwy,
I dderbyn dŷ obrwy, Duw Abram.

P'le bwriai'r bai weithian? ond arnaf fy hunan,
Fel Adda am y winllan ddeheulan ei hawl,
Aeth tros y terfynau,—ac felly 'rwyf finau,
Yn ddinerth am ddoniau meddiannawl.

Gan syrthio, trwy wendid, i flinder, aflendid,
Ti a'm gwelit yn dilyd gwag ryddid yn gry';
Rwy'n ffola o'r ffyliaid, 'rwyn waetha' o'r cre'duriaid,
Ochenaid i'm henaid am hynny.'

Y peth oedd gymhesur, yn eli wrth fy nolur,
Gadewais heb wneuthur, dro ammur di rym;
A'r peth oedd anweddaidd i ddyn Cristionogaidd,
Fel gweithiwr annoethaidd a wnaethum.

Mi roddais bob aelod,—traed, dwylo, a thafod,
Yn weision i bechod, drwy gydfod drwg wedd,
Y llygaid, a'r clusiau, yn wraidd anwireddau,
A hwythau'r gwefusau, gwiw faswedd.

Gan bechod ysgymun, yn gwynio fel gwenwyn
Nid oes 'honof ronyn yn ymlyn yn iach,
Rwy'n gorwedd yn nghanol ffieidd-glwyf gwahanol,
Fy ngraddol Dduw nefol, yn afiach.

'Rwy,n ail i'r gwr gwirion a syrthiai'n mhlith
lladron;
Ce's friwiau ac archollion i'r galon oer gus,
'Rwy'n ddyn haner marw, heb gymmorth i'm
cadw,
Yn galw ar d'Enw daionus.

Nid yw fy neisyfiad at Brophwyd na Lefiad,
Mae'r perffaith Samariad, byw dyfiad heb
dwyll;
Am hwn nid amheua, i'r goleu goleua,
Fe'm dwg i lettya ó le tywyll.

Crist ydyw'r Samariad, Oen Duw sydd yn dwad
A chalon ddychweliad, dda'i ymweliad i mi,
Defnyna'i chwys gwaedlyd, iawn achos a'm
iechyd,
Rhydd ef i'w anwylyd yn eli.

Cael olew ffydd wreiddiol gan f' Arglwydd
sancteiddiol,
A gwin edifeiriol, yn fuddiol a fydd,
Yw'r ddeu-beth happusol a'm gwneiff i'n
iachusol,
O'm cyflwr annuwiol o newydd.

Gwaed yr Oen gwaraidd, a wneiff y gyfaredd,
I gael dy drugaredd, da duedd Duw Dad;
I'r byd ti'm danfonaist, ac ynddo i'm boddlon-
Dad-ddigiaist, esgoraist dy gariad. (aist,

Drwy serch fy Nghreawdwr, trwy rad Iesu
Mhrynwr,
A chwmni'r Dyddanwr. da rcd lwr di rus:

Duw, ysbryd goleu-lân, fo i'm trefnu o hyn
Fel baban newyddian, yn weddus. (allan

Am grair creadigaeth, am bryniad di briniaeth
Am rasol grediniaeth, byw luniaeth dy blant,
Datganed brenhinoedd a'r holl ddaear hiloedd
Yn filoedd at filoedd, it' foliant.

Pawb a glodforant Dduw oll a ddeallant,
Y doniau dderbyniant o lwyddiant dy law;
Pob rhoddiad perffeithlan sy anrheg gysurlan,
O'th fawredd di allan yn deilliaw.

HUW MORYS.

Bedd-Argraff HUW MORYS, yn Llansilin, Sir Ddinbych.

Obiit Augusus 31, Die. An. Dom. 1709.

Dyma Huw, fu byw'n y byd,—yn bencerdd,
Am byngcio celfyddyd;
Gwir organ y gân i gyd,
Di ammau yw, dyma *Ovyd*.

Er Groegiaid, blaeniaid aer blys,—iawn naddiad,
Awenyddiaeth fedrys;
Lladingwyr delwyr di-lys,
Hwya'mawredd Huw Morys.

ENGLYN,

AR FEDD MERCH, A ELWID GWEN.

Tirion gangen, Gwen oedd gynau,—dilesg,
Yn dwyn dail a blodau;
A'r Wen hon, 'nol hir wanhau,
Dengys ol dyrnod angau. D. DDU, Eryri.

GANIAD YR AMSER.

Y RHAI sy' 'rhyd y byd yn bod,
Yn medru gwybod llawer,
Gwesgwch oll eich penau 'nghyd
I ystyr hyd eich amser.

Ni wnaed (mae 'n hysbys i bob oed)
Un peth erioed yn ofer,
Ac nad oes i wych na gwael,
Drwy'r byd i'w gael ond amser.

Fe ddywed Selyf oreu 'i ddawn,
Yr hwn oedd lawn o ddoethder,
Fod yn rhaid yn llwyr ddifeth,
I'bob peth gael ei amser.

Oddi yno caiff pob enaid byw,
Gan Arglwydd Dduw'r cyfiawnder,
Y gwych, y gwael, y call, a'r ffol,
Eu barnu 'nol yr amser.

Bu nifer mawr o Adda dras
Mewn parch ac urddas lawer,
Ac anrhydedd dan y rhod,
Cyn darfod am eu hamser.

Maent yn awr yn llawr y llwch,
Heb degwch na grymusder;
Yn nhrag'wyddoldeb byddant hwy,
Heb gaffael mwy ddim amser.

Y rhai a fuant yn y byd,
Yn dilyn ynfyd bleser,
Maent yn goddef poenau'n ol,
Am wneud yn ffol o'u hamser.

Tra mae eraill a fu'n byw
Trwy ffydd, dan amryw flinder,
Mewn gogoniant pur diball,
Am wneud yn gall o'u hàmser.

Wele ni, rhai sy'n y byd,
Mewn iechyd a grymusder,
Yn cael ein dewis ffyrdd yn glau,
I dreulio dyddiau'n hamser.

Cyd-ymrow'n i foddio'r Tad,
A chessiwn wlad uchelder,
Ac na threuliwn ddim yn ffol
O'r hyn sy'n ol o'n hamser.

Fel y rhed yr haul uwch ben
Yr holl ffurfafen dyner,
Hwn ni orphwys er un cêd,
Ac felly rhed yr amser.

Megis mŵg o'r bibell frau,
Neu un o donau'r dyfnder,
Neu fal ewyn dwfr o'r rhiw,
Cyffelyb ydyw'r amser.

Er meddu dawn awenydd glau,
Yn mysg synwyrau lawer,
A gwybodaeth gwyr o ddysg,
Rai hyddysg yn eu hamser,

Gwybod llwybrau'r ser, ar g'oedd,
Y nefoedd a'i holl wychder;
Er gwybodaeth yr holl fyd,
Ni wy's mo hyd yr amser

Tragwyddoldeb oedd yn bod
Cyn gosod rhod y ddaear,
Lle preswyliodd mawredd Iôn,
Cyn peri son am amser.

Trag'wyddoldeb oddi draw,
Yn ddiau ddaw ar fyrder,
Pan dyngo'r angel yn ei nwy'
Na bydd yn hwy ddim amser.

Yn eigion trag'wyddoldeb maith,
'Nol arfaeth Duw'r uchelder,
Megis cŵyr, gan doddi'n hawdd
Felly tawdd yr amser.

Megis canwyll yn y nos,
Fai'n dangos goleu tyner,
Hon a ddiffydd ar ryw bryd,
Ac felly hyd yr amser.

Goreu gyngor i bob dyn
Sydd yma'n dilyn ffolder,
Heb ystyried mewn un awr,
Mor werthfawr ydyw'r amser,

Ymwroled tra b'o byw,
Am ffafor Duw'r uchelder,
Er cael dedwyddwch wedi'r dydd
Y derfydd am yr amser.

R. HUGHES, Ceint-bach.

Yr amser, gweler heb goll,—sy'n dirwyn
O'r dwyrain yn ddigoll,
A'i rwydd orchwyl rydd archoll,
I elyn Duw, eled oll. R. H.

ENGLYNION,

COFFADWRIAETH JOHN THOMAS,

Pentrefoelas, Swydd Dinbych.

OCH, flin groes, Och, loes, a chledd,—
Ow! nodi
Iawn awdwr cynghanedd!
Wele o'r byd i lawr bedd,
Disgynwyd Eos Gwynedd.

Mewn addfed bryd, mwyneidd-fardd—
A hunodd,
Oedd hynod gyson-fardd;
Addas Bentre'r Foelas fardd,
Hen addfwyn awenydd-fardd.

Os ffyddlon ddigon oedd ef,—ei enaid
Aeth i'w anwyl gartref;
Gwenodd holl lu'r dêg wiw-nef,
Ar newydd Ganiadydd nef!

D. DDU, Eryri.

HYMN. M. S.

Galwad i'r Winllan.

CLYWCH bechaduriaid gwael eu gwedd
Efengyl hedd yn galw,
Chwychwi druenus blant y llwch,
Paham y byddwch feirw

Clywch alwad rhydd i'r swper mawr,
Dewch, dewch, yn awr i'r winllan,
Os gomedd wnewch, trist fydd i chwi,
Eich colli a'ch cau allan.

Dewch i'r briodas, dyma'r pryd :
Yn wir mae'n enbyd oedi ;
Rhag, os gwrthodwch wledd ddilyth,
Na chewch fyth, fyth ei phrofi.

I'r winllan dewch yn morau'ch oes,
Neu ganol einioes heini ;
Dewch iddi'r unfed-awr-ar-ddeg,
Ni cheir ychwaneg oedi.

Llwyr-ufuddhewch i alwad Ion,
Na fyddwch ddynion difraw,
Pob un sy'n gado pechod cas,
Yn ninas gras caiff groesaw.

Ar Sion deg gogoniant sydd,
Ac arni bydd amddiffyn ;
Ei Llywydd Hollalluog yw,
Rheolwr pob rhyw elyn.

GALAR-GWYN,

AR OL MERCH IEUANGC LAN,

Yr hon a fu farw yn mlodau ei hòes.

Gwych iawn eedd tegwch einioes,—cyn angau
Cwyn ing a diwedd-loes ;
I'w bladur ef, blodau'r oes
Ni ddaliai,—blin y dduloes !

D T

CYFFES YSTYRIOL,

o

Fawredd a daioni Duw, yn rhyfeddol weithredoedd Rhagluniaeth yn amrywiol oesoedd y byd.

"—Canys preswylwyr y byd a ddysgant gyfiawnder pan fyddo dy farnedigaethau ar y ddaear."—

MESUR NEWYDD, "MWYNEN MENAI."

GOGONIANT moliant miloedd
I Frenin y brenhinoedd,
I ddynol ryw daionus yw
Llaw rasol Llyw yr oesoedd!
Pob cyfryw ddyn sy'n profi
Ei ddinag fawr ddaioni,
Fel unig ddeiliaid rhwym i Dduw,
Ei ddyled yw addoli.
Cyn troi o'r haul uwch cant' y rhod,
'Roedd Duw yn fod anfeidrol,
Mae'n berffaith hanfod ynddo'i hun,
Heb rith na llun allanol,
A diau fod ei fawredd hael
Yn haeddu cael ei ganmol.

Un ydyw sy'n benadur,
Ar holl elfenau nattur:
Mae'n Dduw sy dirion nos a dydd,
Gwaredydd ei greadur,

Ei rymus air sy'n peri
Darostwng byd neu godi,
  Troi'r llawn yn llwm, troi'r cryf yn wan,
Goludog dan galedi :
  Pan rydd, er prawf neu gerydd, farn,
Try'n fendith gadarn gwedi :
Trwy hyny dengys yn ddilai
  Ei gyfoeth a'i ddaioni :
Mae'r cyfryw Ben-rheolwr hael
  Yn haeddu cael ei ofni.

Duw Ion oedd yn ordeinio
I ddwfr o'r Graig bistyllio ;
  Pryd arall un o'i farnau ef
Oedd cloi y nef rhag gwlawio ;
Er nawdd i'w gyfiawn eiddo
Gwnaeth i'r Iorddonen lifo ;
  Pryd arall, gorphwys ar ei thaith,
I'w gwely llaith ymgilio ;
Mae'n anfon prinder ambell dro,
  Er lluddio oriau llwyddiant,
Pryd arall drwy alluog wyrth
Mae'n agor pyrth ein porthiant,
Am hyn, rhoed lluoedd daear lawr,
I'w enw mawr ogoniant.

Yn nghanol ei ddigllonedd,
Mae'n cofio am drugaredd,
  Ni theifl yn llwyr i lwch y llaid
Ei ddeiliaid yn ei ddialedd,
Mae'n caniattau pan fynno,
I'r cledd a'r haint niweidio ;
Creu llawnder mawr o ŷd a gwin,
Creu newyn i'w crin wywo,

Ni ommedd daear, awyr, môr,
  Un trysor,—ni phetrusant,
Ar air yr hen Reolwr hael
  Fe ddylai gael addoliant,
A diau fod holl roddion Duw
  Yn gweini i'w ogoniant.

Cof am weithredoedd nerthol,
Sy'n Ewrop waith synwyrol,
  Ni fu eu bath er dechreu byd
Hyd at y pryd presennol:
Goddefodd Duw fflangellwr,
Ar wledydd fu'n erlidiwr;
Ond daeth ar ddiwedd ymdrech hir,
  Afrwydd-deb i'r difrodwr:
Trueiniaid dynol wrth y myrdd,
  Mewn amryw ffyrdd ddinystriwyd;
Effeithiau rhyfel, llid, a brad,
  Drwy amryw wlad a ledwyd:
Cyn attal rhwysg a difrod chwyrn,
Dinasoedd cedyrn yswyd.

Canlynwyd blin ryfelaeth,
Gan brinder a drudaniaeth,
  Grwgnachodd miloedd, mawr a mân,
Yn erbyn glân ragluniaeth:
'Nol teimlo pwys tylodi,
Cul adwyth mewn caledi,
Ar rai yn nyfnder cyfyng fyd,
  Disgynodd ysbryd gweddi:
Symudwyd ymaith adfyd blin,
  Duw mawr roes hin dymherus,
Rhoes ydau iach i lenwi gwlad,
Rhoes ymborth rhad i'r rheidus;

Am hyn diolched pawb yn awr,
  I'w enw mawr daionus.

Gweithredoedd hên Rhagluniaeth,
Sy'n haeddu dwys ystyriaeth;
  Hon sy'n amlygu'r Duwdod mawr,
A'i ddirfawr ryfedd arfaeth.
Jehofa mawr sy'n llywio
Pob peth a grewyd ganddo;
  Yn ffyrdd ei ras, a'i farn ar ddyn,
Ei fawredd sy'n disgleirio,
Mae'n arwain rhai mewn galar dwys,
  I deimlo pwys eu beiau,
A gweled angen cael iachad,
  Trwy'r Meddyg rhad sy'n maddau;
Cysegru iddo'r corph wrth raid,—
Yr enaid, a'i holl ranau.

Ond gwir na lwydda un-dyn
A ymladd yn ei erbyn;
  Ufydd-dod i'w Efengyl ef,
Mae Brenin nef yn ofyn;
Hwn ydyw'r Gwr sy'n gwared
O adfyd a chaethiwed;
Diolcher iddo nos a dydd,
A phrofer ffydd drwy weithred;
Addefer ef mewn einioes frau,
  Wrth ymneshau i'r beddrod;
Gan lawenhau, wrth ddwyn y groes,
  Drwy oes, uwch daear isod,
Nes myn'd i'r Ganaan lân ddilyth,
  I seinio byth ei fawr-glod.

D. DDU, Eryri.

MAWL-GAN NEWYDD,

AR

Byngciau sylfaenol y Grefydd Gristionogol.

CYDUNWN oll i senio clod
I'r unig Fod anfeidrol;
Dangosodd nawdd,—Tad tirion yw,
I ddynol-ryw'n foreuol.

Cwympasom dan euogrwydd trwm,
Am adwyth godwm Eden,
O 'stad ddedwyddol, bawb ar goll,
Syrthiasom oll fel deilen.

Nyni gollasom heb ddim llwydd,
Ein Diniweidrwydd perffaith:
Yn Angeu Iesu prynwr byd,
Darparwyd bywyd eilwaith.

O'i gariad hael, addawai'r Tad,
Ei Fab, i'n rhad waredu;
Yn ol y gair, yn mhob rhyw fodd
Yr ymddangosodd Iesu.

Prophwydi gynt, hyspysrwydd llawn,
O'r Iesu cyfiawn rhoesant:
A'r Apostolion, dynion Duw,
Gair Iesu byw gwiriasant.

Ei weinidogaeth, yn ei oes,
Hyd angau loes oedd lesol:
Oi enau pur llifeirio wnaeth
Ffrwd o athrawiaeth nefol!

Ni allai dalu'r iawn ar groes,
Heb offrwm einioes farwol:
Ni allai farnu meirw a byw,
Heb fod yn Dduw trag'wyddol.

Ar ei farwolaeth crynu wnaeth
Holl ymerodraeth Angeu!
Gorchfygodd uffern, byd a'r bedd,
Hyn yw'n gorfoledd ninnau.

Ei adgyfodiad byw o fedd,
Sy'n rhyfedd, rhyfedd hefyd,
Heb hyn ni chawsem sicrwydd maith,
Na gobaith 'chwaith am fywyd.

I'r nef esgynodd at y Tad,
Ein Harglwydd mad cymmodol;
O ran i'w Eglwys gael mwynhad
O bob rhyw rad ysprydol.

Cadwyno Satan a wnaeth ef,
Agorodd nef i'w eiddo;
Cadwedig fydd ei anwyl blant,
Sef pawb a gredant ynddo.

Mae'n galw ar drigolion byd,
I wir ddychwelyd atto;
Calonau cyndyn, aflan, cas,
Mae'n anfon gras i'w puro.

Os llymion ydym, yn mhob lle,
Mae ynddo fe gyflawnder;
Yn Iesu, anwyl Fab y Tad,
Mae'n cyfiawnhad a'n hyder.

Mae meirw a byw yn disgwyl barn,
Ein Iesu cadarn oesol;
A Seion, dinas hedd a maeth,
Dan ei gadwraeth rasol.

Y rhai sy'n treulio dyddiau 'u hoes,
Dan groes ein hawddgar Iesu,
A ymddangosant ar ei wedd,
'Nol d'od o'r bedd i fynu.

Pob un sy'n arddel Brenin Ne'
Ac ynddo fe'n ymddiried,
Rhoed brawf o'r ffydd sydd dan ei fron,
Amlyger hon drwy weithred.

Addolwn oll ein Harglwydd da,
Sef Brenin tragwyddoldeb,
Boed i ni bawb i gadw gwyl,
Ger bron ei anwyl wyneb.

I'r Tri yn Un, heb is nac uwch,
Boed fyth ogyfuwch foliant,
Clodfored pob creadur byw,
Gu Enw Duw'r gogoniant.

D. DDU, Eryri.

ENGLYN,

AR FEDD GWRAIG DDIWYD.

Diwyd fu yn blodeuo,—mewn eiuioes,
Mae'n anwyl ei chofio;
Truan mewn graian a gro,
Ydyw hon wedi huno. D. DDU.

EMYN NEWYDD,

AR

NADOLIG CRIST.

'YN awr o fawr i fán,
Rhown gân i gyd:
Wel, dyma'r ŵyl mawrhawn,
Bu iawn i'r byd,
Gwyl y Nadolig daeth:
Gwyl odiaeth gael ei gwawr,
Prvd ganwyd Mab Duw gwyn,
Sef hyn sy fawr.

Angylion nnion nef,
A'u llef yn llon,
A fuont gynt a'u cân
I'r lân wyl hon,
Newyddion da, nawdd Duw
I ddynol-ryw a ddo'ent;
Tangnefedd têg y Tad,
O'i rad a ro'ent.

Ystyriwn, unwn ni,
Ein bri a'n braint,
Daeth Iesu dan ein clwy';
Pwy fwy ei faint ?
Gwir holed pawb ei hun,
A gweled pob un byw
Ei worthfawr fraint ddi-freg;
Mor deg yw Duw.

Ei Fab anfonodd ef
O'r nef iawn un,

I'r byd i wisgo cnawd,
Yn dlawd ei lun;
A thrwy ei dlodi ef,
O dan y nef yn wir,
Y cyfoethogir ni
Mewn g'leuni'n glir,

Trysorau gras wir gred,
Ar led hir lwydd
I ni, a 'nillodd ef
Draw, sef drwy'r swydd;
Gŵyr pawb mai geiriau pur,
Yn d'we'yd yn eglur nod,
Gwnaeth Iachawdwriaeth dyn,
Byth glŷn ei glod.

Nid all'sai anyglion oll,
Heb goll i gyd,
Na thrysor nefoedd wen,
O'i ben, na'r byd,
Fyth dalu iawn i Dduw
Dros ddynolryw, wael rai,
Ond Iesu Grist ei hun,
Ni'n un a wnai.

Ni ddichon i ni'n wir
Roi'n glir ei glod,
Nac iawn-ddatganu'i fawl,
Anfeidrawl Fod;
Ond uno a wnawn ni
A llu'r nef heini hoen,
I ganu, Teilwng Dduw,
Gwir yw yr Oen.

W. JONES, Bardd Môn.

CYWYDD Y FARN.

Dod ym' dy nawdd, a hawdd hynt,
Duw hael, a deau helynt,
Goddau f' armerth, o'm nerthyd,
Yw Dydd Barn, a diwedd byd;
Dyddwaith, paham na'n diddawr?
Galwad i'r ymweliad mawr!
Mab Mair a gair yn gwiriaw
Y dydd ebrwydded y daw:
A'i Saint cyttun yn unair
Dywedant, gwiriant y gair
A Gair Duw'n agoriad in',
Gair Duw, a gorau dewin;
Pan'd gwirair y gair a gaf?
Iach rad, a pha'm na chredaf?
Y dydd, diogel y daw;
Boed addas y byd iddaw:
Diwrnod anwybod i ni,
A glanaf lu goleuni,
Nid oes (f' Arglwydd) a wyddiad
Ei dymp, onid ef a'i Dad:
Mal cawr aruthr yn rhuthraw,
Mal lladron dison y daw,
Gwae'r dïofal ysmala,
Gwynfyd i'r diwyd a'r da!
Daw angylion lwysion lu,
Llym naws â Llumman Iesu;
Llen o'r ffurfafen a fydd
Mal cynfas, mil a'i cenfydd,
Ac ar y llen wybrennog,
E rydd Grist arwydd ei Grog.

Yno'r Glyw, Ner y gloywnef,
A ferchyg yn Eurfyg nef!
Dyrcha'n uchel ei helynt,
A gwân adenydd y gwynt!
A'i angylion gwynion, gant,
Miloedd yn eilio moliant.
Rhoi'r gawr nerthol, â dolef,
Mal clych yn entrych y nef,
Llef mawr goruwch llif môr-ryd,
Uwch dyfroedd aberoedd byd:
Gosteg a roi'r, ac Ust! draw,
Dwrf rhaiadr, darfu rhuaw;
Angel a gân, hoywlán lef,
Felyslais, nefawl oslef:
Wrth ei fant, groywber gantawr,
Gesyd ei gorn, mingorn mawr;
Corn anfeidrol ei ddolef,
Corn ffraeth o saerniaeth nef.
Dychleim, o nerth ei gerth gân,
Byd refedd, a'i Bedryfan,
Pob cnawd, o'i heng, a drenga,
Y byd yn ddybryd ydd â;
Gloes oerddu'n neutu natur,
Daear a hyllt, gorwyllt gur!
Pob creiglethr, crog, a ogwymp,
Pob gallt, a gorallt, a gwymp:
Ail i'r âr ael Eryri,
Cyfartal hoewal a'hi;
Gorddyar, bâr, a berw-ias,
Yn ebyr, yn myr, yn mas,
Twrdd ac anferth ryferthwy,
Dygyfor ni fu fôr fwy,
Ni fu ddylif yn llifo
Ei elfydd yn nydd hên No.

Y nef yn goddef a gaid,
A llugyrn hon a'i llygaid
Goddefid, naws llid, nos llwyr
Gan lewyg gwyn haul awyr,
Nid mwy dilathr ac athrist
Y poen-loes cryf pan las Crist;
Y wen-lloer yn oer ei nych,
Hardd leuad ni rydd lewych:
Syrth nifer y ser (arw son!)
Drwy'r wagwybr draw i'r eigion.
Hyll ffyrnbyrth holl uffernbwll,
Syrthiant drwy'r pant draw i'r pwll,
Bydd hadl y wàl ddiadlam
Y rhawg, a chwyddawg a cham,
Cryn y gethern uffernawl,
A chryn, a dychryn y diawl,
Cydfydd y fall â'i gallawr,
Câr lechu yn y Fagddu fawr.
Dyfyn a enfyn Dofydd,
Bloedd erchyll rhingyll â'i rhydd,
Dowch y pydron ddynionach,
Ynghyd, feirw byd, fawr a bach,
Dowch i'r farn a roi'r arnoch,
A dedwydd beunydd y bo'ch.
Cyfyd fal ŷd o fol âr,
Gnwd tew, eginhad daear,
A'r môr a yrr o'r meirwon
Fil myrdd uwch dyfnffyrdd y dòn:
Try allan ddynion tri-llu,
Y sydd, y fydd ac a fu,
Heb goll yn ddidwn hollol,
Heb un o naddun yn ol.
Y dorf ar gyrch, dirfawr gâd!
A'n union ger bron Ynad

Mab Mair ar gadair a gaid,
Iawn Naf gwyn o nef gannaid,
A'i osgordd, welygordd lân,
Deuddeg Ebystyl diddan.
Cyflym y cyrchir Coflyfr,
A daw i'w ddwy law ddau Lyfr;
Llyfr bywyd gwynfyd y gwaith,
Llyfr angeu, llefair ingwaith.
Egorir a llēir Llith
O'r ddeulyfr amryw ddwylith;
Un llith o fendith i fad;
A'r diles air deoliad.
Duw gwyn i le da y gyr
Ei ddeiliaid a'i addolwyr.
I'r euog, bradog eu bron,
Braw tostaf; ba raid tystion;
Da, na hedd Duw ni haeddant,
Dilon yrr, delwi a wnant.
Y cyfion a dry ION draw,
Dda hil ar ei ddeheulaw:
Troir y dihir, hyrddir hwy,
I le îs ei law aswy:
Ysgwyd y nef tra llefair,
Iesu fâd, a saif ei air:
Hwt! gwydlawn felldigeidlu
I uffern ddofn a'i ffwrn ddu,
Lle i ddiawl a llu o'i ddeiliaid,
Lle dihoen, a phoen na phaid:
Ni chewch ddiben o'ch penyd,
Diffaith a fu'ch gwaith i gyd;
Ewch (ni chynnwys y lwysnef
Ddim drwg) o lân olwg nef,
At wyllon y tywyllwg,
I addef fyth ei ddu fwg.

O'i weision dynion dinam,
Ni bydd a adnebydd nam;
Da'n ehelaeth a wnaethant,
Dieuog wŷr, da a gânt.
Llefair yn wâr y câr cu,
(Gwâr naws y gwir Oen Iesu,)
Dewch i hedd, a da'ch haddef,
Ddilysiant anwyl-blant nef,
Lle mae nefol orfoledd,
Na ddirnad ond mad a'i medd:
Man hyfryd yw mewn hoywfraint,
Ac amlder y ser o Saint.
Llu dïen yn llawenu,
Hefelydd ni fydd, ni fu:
O'm traserch, darfum trosoch
Ddwyn clwyf, fel lle b'wyf y b'och,
Mewn ffawd di-dor a gorhoen,
Mewn byd heb na phyd na phoen.
Gan y diafl ydd à'r aflan,
A dieifl a'i teifl yn y tân,
Try'r Ynad draw i'r wiwnef,
A'i gâd gain â gydâg ef,
I'ganu mawl didawl da,
(Oes hoenus!) a Hosanna;
Boed im' gyfran o'r gân gu,
A melysed mawl Iesu;
Crist fyg a fo'r Meddyg mau,
Amen, a nef i minnau,

GORONWY OWEN,

ENGLYNION I DDUW.

DUW Tad, un [o'th rad] a thri,—Duw
Daionus dy berchi; [anwyl,
Duw unig y daioni,
Clau yw fy nghred, clyw fy nghri.

Dy eiriau, Iôn clau, clywais,—yn addo
Noddi pawb a'th ymgais;
Ymagored (mi gurais)
Y nef wrth fy llef a'm llais.

Gellaist (i'th nerthog allu—nid yw boen)
Wneud y byd a'i brynu,
Yn D'wysog, un Duw Iesu,
Ti sydd, ti fydd, ti a fu.

Da gwyddost wrando gweddi—dy weision,
Dewisaist eu noddi;
A minnau wyf, o mynni,
Duw Iesu deg, dy was di.

Gwaelaidd gynt yn bugeilio—oedd Moesen
Yn maesydd hen Jethro;
Di roddaist hyder iddo,
A braint, a rheolaeth bro.

A'r Salmydd, cynnydd Dduw cu,—cof ydyw,
Cyfodaist i fynu.
O Fugail, heb ryfygu,
Aeth Dafydd yn Llywydd llu.

Minnau, Duw Naf, o mynni,—annerchaf
Hyn o archiad iti:
Bod yn Fugail Cail Celi,
A doed im' dy Eglwys di.

Ni cheisiaf gan Naf o nefoedd,—gyfoeth,
Na gofal brenhinoedd;
Ond arail ŵyn ei diroedd,
Duw a'i gwnel, a digon oedd

GORONWY OWEN.

Dyledswydd a doethineb dyn yw ymfoddloni i ewyllys ei Greawdwr.

TRWY droiau'r byd, a'i wên, a'i ŵg,
Bid da, bid drwg y tybier,
Llaw Duw sy'n troi'r cwmpas-gylch glân,
Yn wiwlan, er na weler.

O'i dadawl ofal, ef a rydd
Yr hyn y sydd gymmedrol,
O hawddfyd, adfyd, iechyd, cur,
Ond da'i gymmesur fantol.

Pe rho'em ar geraint oed neu nerth,
Neu gyfoeth prydferth, oglyd;
Os Duw a'i myn, *Fe*'n teifl i lawr,
A'n rhodres mawr mewn munud,

Os yfaist gwpan lawn o'i lid,
A'th doi â gwrid a gw'radwydd;
Od wyt Gyff clêr a bustl i'r byd,
Fe'th gyfyd i foddlonrwydd.

Fe weryd wirion yn y frawd,
  Rhag enllib tafawd atgas,
Fe rydd orphwysfa i alltud blin,
  Mewn anghynnefin ddinas.

Ei gysur *Ef* sydd yn bywhau
  Y pennau gogwyddedig:
Fe sych â'i law y llif sy'n gwau
  'Hyd ruddiau'r weddw unig.

Oes dim nac yn, na than y nef,
  Nad *Ef* sydd yn ei beri;
Ac *Ef* a roes (gwnaed dyn ei ran)
  Y cyfan er daioni.

Pa raid ychwaneg? gwnelwyf hyn;
  Gosteged gwŷn a balchder:
Arnat ti, Dduw, fy Ngheidwad glwys,
  Bid fy holl bwys a'm hyder.

Cyfieithiad GORONWY OWEN.

CAN,

A GANWYD NOS GALAN, 1815.

BLWYDDYN etto 'hedodd heibio,—
  Gwnawn fyfyrio arni'n faith:
Llawer brawd a chwaer a hunodd,
  Angeu'u daliodd ar y daith:
P'le yw pennod eu preswylfod?
  Ai'r *nef uchod*, hynod hedd?
Neu ai yntau *drigfan dreigiau*,
  Aswy barthau, is na'r bedd?—

Trwm fyfyrdod, llawn o chwithdod,
Angeu a chawod, ing, a chur,
I'r anmharod *gaethwas pechod*,
Y mae'n ddyrnod min o ddur!

Clyw, *was pechod*, lais cydwybod,
Cais fyfyrdod am y farn,
Na watwara amynedd Alpha;
Ei ddeddf na senga'n hwy fel sarn;
O bechadur, llwfr gysgadur,
Cas dy ddolur, cais dy Dduw
Os cei faddeu dy bechodau,
Er bedd a beiau, byddi byw.
A byw'n *dragwyddol!* briddyn marwol,
Ond rhyfeddol yw ei fod
(Er dued ydoedd) tros oes oesoedd,
Yn aer nefoedd, oreu nôd.

Amser hudol sy ar ei 'hediad;
I'r *un* daliad awr nid oes;
I'r ucha'i wrychyn, angeu'n sydyn
Daw i ddirwyn diwedd oes;
Amser! Amser! O! mor ofer,
Treulia llawer, trwy hyll wedd,
Amser ydyw mesuredig,
Mawr yw'r perig' marw heb hedd;—
Hedd a chymmod Crist dros bechod,
Llawn gollyngdod a gwellhad,
Gwellhad buchedd, trwy drugaredd,
Rhinwedd rhyfedd y Mab rhad.

Esgyrn sychion y'nt gysgodion,
O rai meirwon dirym had:
Ac aml iawn ar wyneb dyffryn
Yw'r esgyrn hyn ar wasgarhad!

Ni's gall hunan byth ddihuno,—
  Ysbryd nef rhaid deffro dyn,
A gwisgo'r esgyrn sydd ar wasgar,
  A chnawd lliwgar yn eu llun,
Anadla'n nerthol Ysbryd bywiol,
  Trwy ragorol Dduw y Gair.
A thrwy weithred ar bob enaid,
  Par eu myned at Fab Mair.

Fel briwedig at y Meddyg,
  Fel y lloerig er gwellhad;
Fel y deillion am olygon,
  Fel y mudion am y mad;
Beth a wnawn ni, bydd byth niwed,
  Colli enaid o wall cael,
Grym i gredu, ac edifaru.—
  Duw fo'n mynnu i ni'r mael:
O! am ganfod mawr ddrwg pechod,
  A'r anafod i ni wnaed,
A gras i wybod Crist a'i aberth;
  Parhaus o werth yw pris ei waed.

O, ystyriwn, edifarwn,
  A gweddiwn oll ar Dduw,
Am gael teimlad ysbryd cariad.
  Adnewyddiad bwriad byw;
A ffydd fywiog, cariad gwresog
  At eneiniog Oen y ne',
A garodd gynta' eppil Adda,
  Ac aeth i'r lladdfa yn eu lle:
O! ddyfnderoedd cariad cyhoedd,—
  Ni all lluoedd nef a llawr,
Fyth ddatganu'r mawl mae'n haeddu,
  Er rhyfeddu arno'n fawr.

Y mae'r dialydd yn ein dilyn,
  Y mae'r gelyn (mawr yw'r gwg)
Yn cyhuddo, a'r ddeddf yn damnio,
  Dyn i drigo gyda'r drwg:
Barn y gyfraith yw marwolaeth;—
  Oes dim gobaith i ni gael?
Oes, mae gobaith iechydwriaeth,
  O rad helaeth Iesu hael.
Haleluia, croes Calfaria
  Yn ddinas noddfa i ni wnaed,
Yr anghyfiawn trwy ffydd gyfiawn,
  Wneir yn gyfiawn trwy y gwaed.

Dewch, drancedig, a sychedig,
  At y Meddyg i gael maeth,
Dewch o gulni gwlad trueni,
  I gael eich llonni â gwin a llaeth;
Defaid Israel, clywch y Bugail,
  Ei air a'i sêl yn wir a sai',
Gan bod Ceidwad am eich cadw,
  Pa'm y byddwch feirw ar fai?
Clywch y galwad a'r gwahoddiad,
  Mae â charlad atoch chwi:
Na ato Duw i'w gariad tyner
  Dreulio'n *ofer atom ni*.

Gwiliwn, gwiliwn, a gweddiwn,
  Na ryfygwn fyw ar fai;
Clywn leferydd rhad Waredydd,
  Yn rhoi rhybudd i bob rhai;
Clywn rybuddion ei genhadon,
  Yn galw i Seion goleu Saint:
Na segurwn, ond ymdrechwn,
  Ymhyfrydwn yn y fraint,—

Y fraint o gredu yn haeddiant Iesu,
A chael ein nerthu ganddo 'nawr,
I aros ynddo heb dramgwyddo,
Nes ein llithro i bridd y llawr.

Y Parch. WALTER DAVIES,
Periglor Manafon, Swydd Drefaldwyn.

ENGLYNION,

AR

WERTHFAWROGRWYDD AMSER.

YMGEISIWN bawb am gysur,—myfyriwn
Yn foreu mewn llafur;
Cyn diluw cwyn a dolur,
O, ffown i'r arch, er parch pur.

Ein hamser ar fyrder a fydd—yn darfod
Daw terfyn ar rybydd:
Cyn marw, garw gerydd,
Yn awr, O! ffown ar aden ffydd. R. H.

ENGLYN I'R BEDD.

COFIWN bawb am y ceufedd,—a'n bwriad
Yn barod i'r dyfnfedd;
Rhaid in' ryw bryd yn gydwedd,
Gampwyr byd gwympo i'r bedd.

ROBIN DDU.

CERDD NEWYDD,

I'n hannog i ddychwelyd at yr Arglwydd, yn y fath amser terfysglyd.

I'W CHANU AR "OLD DARBY."

POB calon naws dirion, ystyriol,
Brofiadol, hynodol, yn awr;
Sydd, wele,'n blin odde'r blynyddoedd,
Wrth wel'd y terfysgoedd mor fawr:
Trwm ochain, hir filain ryfeloedd,
Brenhinoedd a'u llnoedd yn lladd;
Myrddiynau drwy boenau ddibenwyd,
Llwyr wasgwyd, fe grymwyd pob gradd:
Difrodwyd dinasoedd a threfydd,
Lle'r ydoedd rhai beunydd yn byw;
Dychwelwn, a gwelwn fod galwad,
Trwy bob peth i'n ddwad at Dduw.

Y trethi sy'n codi'n fwy beunydd,
Drwy'n trefydd a'n gwledydd yn glwm;
A phob dyn yn achwyn yn uchel,
O herwydd bod Rhyfel, bvd trwm.
Y mawrion, o'u moddion, a'u meddiant,
Eu gwasgu a gawsant yn gaeth;
A'r gweiniaid fo'u deiliaid fe'u delir,
Yn sicr hwy wesgir yn waeth.
Rhyw drallod ar drallod a welir,
A ninnau geryddir, gwir yw,
Dychwelwn, &c.

Bu prinder am borthiant 'nifeiliaid,
O, gymmaint y niwaid a wnaeth;
Clybuwyd eu brefiad yn aethus;
Rhyw helynt drom ddyrus a ddaeth,
Rhai ydoedd bron trengu er pob triniaeth;
Be's gwelir eu lluniaeth yn llai?
Er trymmed drudaniaeth a dynodd,
Pwy eto a beidiodd â'n bai?
Ry'm ni a'n calonau mor gelyd,
Er maint o swn clefyd sy'n clyw.
Dychwelwn, &c.

Fe d'rawodd Duw wledydd cwmpasog,
A gwialen dra llidiog ger llaw;
Y cleddyf yn difa'r trigolion,
A llawer yn bruddion trwy'r braw:
Pwy fedr ddarlunio'n brofiadol
Fath anrhaith ddinystriol a wnaed?
A'u dynion hyd lawr yn gelanedd,
Tan ddialedd yn gorwedd mewn gwaed;
Ond Lloegr arbedwyd hyd yma,
Heb weled un lladdfa, na'i lliw.
Dychwelwn, &c.

Mae'n bygwth ar Loegr a Chymru,
Sy'n caru ymyru am bob mael;
Fe'n profodd â ch'nhauaf gwlybyrog,
A'n hŷd yn eginog a gwael;
Yleni, gan brinder am luniaeth,
Y gwelir drudaniaeth dra dwys;
A miloedd yn ofni caledfyd
Anhyfryd, a'u bywyd tan bwys;
Trom farn uwch ein penau fygythiwyd,
A'r wialen ysgydwyd os gwiw?
Dychwelwn, &c.

Ni glywsom am newyn Samaria,
A'r cyfyngder am fara yno fu;
Y dynion yn llewygu mewn galar,
Ar wyneb y ddaear yn ddu.
A'r gwragedd tosturiol a moethus,
Gofidus, gresynus eu swydd,
Y n bwyta'u Plant anwyl eu hunain,
Gan newyn ac ochain i'w gŵydd.
O, newyn, diymwared dychrynllyd
Ofnadwy, mor enbyd ei ryw,
Dychwelwn, &c.

Prif ddinas Caersalem, gwnawn sylwi,
A gafodd ei chospi'n dra chwith;
Y cleddyf oedd yno'n dinystrio,
A'r newyn i'w rhwydo'n mhob rhith;
Y newyn tu fewn yn feunyddiol,
I'w tori'n olynol i lawr;
Gelynion â'r cleddyf oddiallan,
I'w difa o fychan i fawr!
Ni welodd fath ofid annhraethol,
Tan wialen geryddol, gwir yw:
Dychwelwn, &c.

Pechodau gwaedd fawr fu'r achosion,
Pob dialedd ar ddynion a ddaeth;
Pechodau'n gwlad ninau sydd gymaint,
Sy'n haeddu digofaint Duw'n gaeth.
Pennaethiaid a'u deiliaid i'w dilyn,
Sy'n para mor gyndyn eu gwawr:
Gan bechu â llaw uchel wrthnysig,
Yn haeddu barn bwysig bob awr.
Yr hen fyd am beched â foddwyd,
Ond Noa waredwyd a'i ryw:
Dych velwn, &c.

Dinystriwyd dinasoedd yn gyfa',
  Sodoma a Gomora, â gwae mawr;
Aneirif bechodau'r trigolion,
  A dynnodd ddialeddion i lawr:
Caersalem a ga'dd ei dinystrio,
  O achos anghofio Duw 'nghyd,
Nes myned yn llwyr anhreithiedig,
  Yn ddiareb arbenig i'r byd;
Gan hyny cymmered pawb rybudd,
  Na fyddwn mor benrhydd yn byw.
Dychwelwn, &c.

Pechodau'r wlad yma'n gyffredin,
  O'r bonedd i'r werin, oer wawr;
Yw'r achos a dynodd ddrudaniaeth,
  A'r rhyfel blin odiaeth yn awr.
Anwiredd sydd fwy-fwy'n cynnyddu,
  A phawb 'nol eu gallu'n ddi-gudd,
Yn tynnu'r dialedd yn agos,
  Bydd debyg o 'mddangos ryw ddydd.
Teyrnasoedd agosa' i ni deimlodd,
  Am bechod hwy brofodd y briw.
Dychwelwn, &c.

Beth ydyw amrywiol Broffeswyr?
  Ond megis dirmygwyr Duw mawr,
Sydd eto'u ymgeulo ar eu sorod,
  Heb dori eu heulunod i lawr.
Neshau ato ef â'u gwefusau,
  Gan adrodd eu geiriau'n dêg iawn,
A'u calonau yn llwyr anystyriol,
  Sy'n hollol ddyeithrol i'w ddawn;
Mawr ydyw ef yn eu geneuau,
  Ond yn eu bucheddau bach yw.
Dychwelwn, &c.

Mae Duw yn ein galw ni i 'styried,
Pe byddem i'w glywed yn glir,
Trwy ryfel, drudaniaeth, a thrallod,
A ni heb ei 'nabod yn wir.
Mae'n galw pawb i edifeirwch,
Gan dd'wedyd, Dychwelwch, dowch chwi:
Er maint ydyw'n grwgnach a'n hachwyn,
Mae'n ymddwyn yn addfwyn â ni.
A'r efengyl, sain anwyl, sy'n unig,
Yn gwa'dd yn garedig, gwir yw;
Dychwelwn, *&c.*

Gweddiwn na welom byth brinder,
Nac unrhyw greulonder drwy'n gwlad;
Llwyr ddylem ymostwng, gan lefain,
Duw cadw dir Brydain rhag brad;
Ac atal y newyn oddiwrthom,
Na theimlom, na welom ei wae:
Er haeddu dialedd Duw'n deilwng,
I'n hannog i ymostwng y mae.
Fel Ninefe, bawb ymostyngwn,
Pwy ŵyr na chawn bardwn a byw?
Dychwelwn, a gwelwn fod galwad,
Trwy bob peth in' ddwad at Dduw.

JOHN PARRY, Llanelian.
Ebrill 26, 1800.

ENGLYN AR WAGEDD Y BYD.

TRALLODUS, boenus arbenig—yw'r byd,
Oer beth darfodedig;
Pob gronyn o'i dyddyn dig,
Wan anian sy'n wenwynig. *E. EVANS*

ENGLYNION.

I'n hannog i ddychwelyd at Dduw.

Dychwelwn, a gwelwn i gyd,—darfod
Modd dirfawr mae'n bywyd,
Yn gorwedd yn y gweryd,
Ar ryw ddydd y bydd y byd.

Wedi ein codi, modd cu,—daw Iesu
Dewisol i'n barnu;
Down ger ei fron, i'w garu fry,
A gynau gwynion i ganu.

EVAN JONES.

ENGLYNION

A WNAED MEWN MYNWENT.

Mae ein mynwent mewn manau,—yn llwybr troed,
Lle bu'r trwyn a'r genau?
Sathru beilchion, brychion brau,
Wna byw-ddyn yn eu beddau.

T. EDWARDS, Nant, pan yn tori ar gareg-fedd.

ATEBAI J. PARRY FEL Y CANLYN.

Ti, sathrwr, baeddwr beddau,—hyd esgyrn,
O, dod ysgafn gamrau:
A chofia, ddyn, briddyn brau,
Y dwthwn sethrir dithau.

ATEBIAD I'R DDAU FLAENOROL.

Er sathru, baeddu y bedd,—a rhodio
Lle'r ydwyf yn gorwedd:
Daw'm priddlyd fadryd fydredd,
I ddydd y farn o'i ddwfn fedd. R. H.

PENNILLION,

O GYNGOR I WR IEUANGC.

AR "MILLER'S KEY."

CLYWCH, Thomas, addas weddol.
Gân foesol gennyf fi,
I fyw'n bwyllog a dihalog,
Mi geisia'ch annog chwi;
Gochelwch ymgysylltu
A'r rhai sy'n pechu'n rhwydd,
I fyw'n eu maswedd, fwy na mesur,
A phob rhyw segur swydd.
O'u ffyrdd truenus trowch,
Am ras a gwir ymro'wch,
Gochelwch annuwiolion,
Twyllodrus yn mhob moddion;
O'u llwybrau trawsion trowch.
Na ro'wch mo'ch hyder chwaith,
Ar bleser mwynder maith;
Gochelwch chwantau ie'nctyd,
Eu dilyn hwy nis dylid,
Bydd gofid am y gwaith.

Er myn'd i wlad estronol,
O, ceisiwch foesol fyw,
Gan ymdrechu i wasanaethu,
Ac anrhydeddu Duw:
Nac ewch i blith oferwyr,
Droseddwyr dyrus iawn,
Eu cymdeithas sydd yn atgas,
A diras yw eu dawn;
A gwelwch yn ddi-gudd,
Er maint o siamplau sydd,
Fod gw'radwydd, gwarth, a dirmyg,
Ofnadwy a phoenedig,
Am fyw'n llygredig rydd;
Byw'n sobr heb un sen,
Sy'n unol is y nen;
A byw i Dduw mewn heddwch
Yw'r unig wir ddiddanwch,
Dymunwch hyn. Amen.

GWEDDI Y BARDD.

O! Arglwydd beunydd y bo—y galon,
A'i golwg heb gilio;
O'u llwybrau drud, lle bu dro,
Duwiolion yn da wilio.

Llywier fi â llaw fy Ner,—
Drwy oer daith draw ar dir;
Yn iach im' swydd uwch y ser,
A'—dwyn o'm gwae, Duw boed gwir.

MYFYRDOD MEWN MYNWENT.

AR "DINIWEIDRWYDD."

"Yr hwn sydd yn disgyn i'r bedd, ni ddaw i fynu mwyach, ni ddychwel mwy i'w dŷ, a'i le nid edwyn ef mwy."—— JOB.

WELE Fynwent, olaf annedd,
Gwely llygredd, gwaela' llun;
Lle mae diwedd dynol fawredd,
Bawb yn waredd bob yr un.
Diwedd cysur holl waith natur,
Diwedd llafur, dyddiau llid,
Diwedd caru, rhag-ofalu,
A cheisio baeddu ynachos byd;
Diwedd croesau a blinderau,
I galonau euog lun,
Diwedd einioes pob diddanwch,
Diwedd tegwch bywyd dyn.

Diwedd cwyno ac ymofidio,
Diwedd wylo a diodde' yw;
Diwedd iechyd, diwedd clefyd,
Diwedd bywyd pob dyn byw;
Diwedd 'mryson rhwng marwolion,
A fu'n elynion caethion c'yd,
Diwedd ffalsder, twyll, gorthrymder,
Enw a balchder yn y byd.
Diwedd urddas pob perthynas,
A chymdeithas addas wedd,
Diwedd cariad heb adferiad,
Daera' bwriad, ydyw' bedd.

Pawb sy'n teithio heb orphwyso,
Gan gyfeirio o hono ei hun,
Nes cyfarfod ar ryw ddiwrnod
Yn y beddrod hwn bob un;
Diwedd llwybrau cenhedlaethau,
O bob rhyw barthau ydyw'r bedd;
Lle mae trigfannau ein holl dadau,
Yr awn ninau yr un wedd.
Ac er bod croesion, ymddadleuon,
Ac amryw ffyrdd gan ddynion ffol,
Pawb gytuna ar y llwybr yma,
I ben yr yrfa, heb un ar ol.

Er i filoedd yn mhob oesoedd
Uno â'u lluoedd yn y llawr,
I wneyd yn rhyddion feddau ddigon,
Darfu o feirwon dyrfa fawr,
Lle i'r nesa' yw 'r sain sy yna,
Gan y dyrfa âg un dôn;
Ond ni cheir clywed am eu tynged,
Er eu sicred, air o son.
Nid oes wahaniaeth yn marwolaeth,
Nac iawn wybodaeth gan y byd,
Dydd barn bydd tynged pawb i'w gweled,
Yn agored yno i gyd.

Y cedyrn filwyr, y goresgynwyr,
A'r ymerawdwyr mwya' erioed,
Fu'n gwisgo tlysau ac aur goronau,
O amryw raddau yma a roed;
Os buont fawrion uwchlaw dynion,
Yn byw mor feilchion,—p'le mae'r fael
O'r bri a gawsant, hyd oni ddaethant,
O'u teg ogoniant i'r tŷ gwael?

'Nawr p'le mae'r achau, uchel raddau,
P'le mae eu teitlau a'u henwau hwy?
P'le mae'r anrhydedd? ond cwbl wagedd
Nodi eu mawredd—nid yw mwy.

Dyma weryd milwr dewrfryd,
A ro'dd ei fywyd, arwydd faith,
O'i galondid yn mhlaid rhyddid,
Fel un diwyd yn y daith;
Cadd goffadwriaeth o'i farwolaeth,
A'r hyn a wnaeth eu rhoi yn wych,
Ond er addurno'r maen sydd arno,
Wele drwyddo waela' drych.
Os bu'n hynod ei awdurdod,
Trwy iawn glod yn trin ei gledd,
Prin y ca'dd feddiant yn ei lwyddiant,
Na dim o'i fwyniant—dyma ei fedd.

Yn agos yma mae bedd Amelia,
Blodau'r dyrfa hardda i'w hoes;
Benyw o ddygiad boneddigaidd,
Llariaidd ac addfwynaidd foes.
Un rinweddol, garedigol,
Lân odiaethol, enaid wych,
Deallus, enwog, ei dull a'i synwyr,
I fil o edrychwyr oedd fel drych;
Ail i seren oleu siriol,
Neu wawr wybrenol f'ai ger bron:
Ond cyn cyrhaeddyd canolddydd bywyd,
Y darfu hyfryd yrfa hon.

Wele'n frithion enwau'r meirwon,
Fel rhyw arwyddion rhyfedd iawn,
I'w darllen weithian, mawr a bychan,
Pob gradd ac oedran yma gawn.

O'r fath gymysgfa a welir yma,
Yn y dyrfa hynod yw;
Yr hen a'r ifangc yn yr afael,
Yr isel gyda'r uchel ryw;
Y penaethiaid gyda'r deiliaid,
Yn sâl weiniaid isel wawr,
Pawb heb awydd gyda'u gilydd,
Yn huno'n llonydd yn y llawr.

Yma y gorwedd rhyw anrhydedd,—
Achau bonedd sy uwch y bedd,
Fe all mai enwog wŷr ardderchog,
Neu anhrugarog iawn eu gwedd,—
Os bu rhai'n crynu rhag eu gallu,
A'u hanrhydeddu megis Duw—
Ond O, mor waelaidd nerth a mawredd,
Ac yn y diwedd waned yw:
Mae eu hawdurdod wedi darfod,
Daeth diwedd nod i'w hammod hwy:
Beth bynag oeddynt, yn awr nid ydynt.
Ac ni ofnir mo'nynt mwy.

Ddoe'r oedd gweision ddewraidd gysur,
I'w gwilio'n brysur, eglur yw;—
Heddyw'n llymach a thylotach,
Heb gyfeillach neb yn fyw.
Ddoe yn foethus, nid yn fethiant,
Yn porthi eu chwant a'u trachwant rhydd,
Heddyw îs daear, hawdd ystyried,
Yn fwyd y pryfed ofid prudd.
Doe rhoi sidan yn drwsiadus
I'w gwisgo'n barchus, ddawnus ddoeth,
Heddyw eu teiau ydyw'r beddau,
Heb un edau—bawb yn noeth.

Ddoe'n barablus, anrhydeddus,
O, mor bwyllus, a mawr barch,
Heddyw'n tewi, trwm yw sylwi,
Wedi oeri yn yr arch.
Ddoe'n ddyddanus wŷr llwyddiannus,
A feddai'n barchus foddion byd,
Heddyw heb geisio na dymuno
Dim o hono ond eu hyd.
Ddoe'n fuddugol, heddyw'n farwol,
Ddoe yn nerthol, heddyw'n wan:
Ddoe a'u gallu yn ymddyrchafu,
Heddyw'n llechu yn mhridd y llan.

Yma eto mae'n gorphwyso
Un i'w gofio'n enwog wych,
Gwr oedranus, nerthol, grymus,
O, mor druenus ydyw'r drych.
Ac os ei lendid a'i gadernid,
A lwyr folid, wele'r fan,
Nid oes siriolded yn ei wyneb,
Na chwaith wroldeb yn ei ran.
Os clod ennillodd ffordd y cerddodd,
I lawr fe wyrodd ar ei ol,—
Os doeth a chywir, prin y sonir,
Fe'n awr ni pherchir mwy na'r ffol.

Yn awr y cofiais am un a hoffais,
Ef nis gwelais, fynwes gu,
Ar foreuddydd yn rhodio'r maesydd,
A'i ofal beunydd fel y bu—
Pa beth a'i daliai, pa'm yr arhosai,
Neu y llwyr oedai'n y lle'r aeth?
Nid oedd, o'i allu, neb yn gofalu
Mwy am ei deulu—yma daeth.

[illegible] wyt?—O, mor wywedig,
[illegible] fu d'yrfa di!—
[illegible] n canfod fod fel yn barod
[illegible] drod i myfi.

[illegible] mi ddechreu darllen enwau,
[illegible] h'renau wrth eu rhi',
[illegible] yn traethu am farw a chladdu,
[illegible] gredu garw gri;
[illegible] mor gynnar yn y ddaear
[illegible] awr alar, yma a roed?
[illegible] gen glandeg sy dan y gareg,
[illegible] i adeg, deunaw oed.
[illegible] dyw'n dawel wedi dianc
[illegible] mor ieuanc, ameu'r wy'?
[illegible] dyma'i enw'n dweyd yn groyw
[illegible] ddaw o blith y meirw mwy.

Gellir tybio ei fod yn addo
Rhodio a llwyddo ar hyd y llawr,
Gwel'd ar ei gyfer wlad o bleser,
Yn ei gwychder, enwog wawr.
Wrth wel'd mor fwynion i'w ddych'mygion,
Bob cysuron loywon lun,—
Addo i'w galon ddiogelwch,
A phob rhyw heddwch iddo'i hun.
Ond cyn i'r blodau ddwyn y ffrwythau,
Annelodd angau anwyla' ddyn,—
A chyn meddiannu'r hyn oedd i'w garu,
Daeth yma i lygru'n wael ei lun.

Ai dyma gyflwr y gorthrymwr,
Ac erlidiwr gwyr ei wlad?
Ai yn y llwchyn hwn y llechodd,
[illegible]dd ar ei stad?

Hwn a ddyrchafwyd ac a ofnwyd,—
Ai hyn a roddwyd yn ei ran,
Ar ol iddo ymlafurio,
I flino a thramgwyddo'r gwan?
Ac os gormesu a gorthrymu,
Yn ddifrawychu, oedd ei fryd,
Fe ddaeth attalfa ar ei yrfa,
A'i enw a bydra yn y byd.

Yma claddwyd gwr a garwyd;
Hwn a barchwyd yn y byd,
Am ei ddoniau a'i rinweddau,
Ei goffhau a gaiff o hyd:
Ei onestrwydd ei ddiwydrwydd
A'i addasrwydd yn ei ddydd
Ei dosturi, a'i haelioni,
Fel yn siamplau i ni sydd.
Hwn fu'n gofalu i gyfranu,
Ac yn achlesu gwan a chla,
A ga'dd anrhydedd gwell nâ mawrodd,
Yn y diwedd—enw da.

Os wyf yn dirnad iawn ddehongliad,
Neu wir goffhad yr argraph hon,
Mae'n arwyddo damwain eto
A gair i friwio 'r gywir fron,
Am un roes siamplau o'i ddioddefiadau,
O fil o rwystrau fel yr aeth;
Ac ar fôr tawel fel yn ddiogel,
A'i swyddau'n uchel, suddo wnaeth,
Os oedd ei lygad ar ddyrchafiad,
A dyfal fwriad fel i fyw,
Ond O'r fath siomniant i'w ddymuniant!
Ym more'i lwyddiant marwol yw.

Pa beth a dybiaf;—mi a sylwaf.—
Ai ouis clywaf, â sain clych,
Lais yn datgan rhybudd weithian
O ddirgel fân, i'r gwán a'r gwych?
"O, na f' ai dynion yn wir ddoethion!
O'u llwybrau trawsion O, na's tro'nt,
I ystyr sylwedd y gwirionedd
Am eu diwedd!—Yma d'ont."
O, clywn yr addysg lawn a roddir;
Fe a'n dysgir yn ofn Duw.
Ac annogaethau at rinweddau
A ro'ir o'r beddau i'r rhai byw.—

Ust! Beth yw'r gwaeddi o ddwys dosturi
A chyhoeddi Och o hyd?
Y fath anghydfod, trueni, a thrallod
A barodd pechod yn y byd;
Dwyn marwolaeth fel trefdadaeth
I ddynoliaeth oedd yn iach?
Dwyn clefydau' a chystuddiau
Yn fôr o boenau ar fawr a bach.
Pob rhyfeloedd, a therfysgoedd,
Yn eu heithafoedd, a wnaeth ef;
Difrodi miloedd o deyrnasoedd,
A dinasoedd dan y Nef.—

Os ca'dd marwolaeth trwy fradwriaeth
I'w allu helaeth oll o hyd
Hir deyrnasu ar druenusion,
A'u dwyn yn gaethion dano i gyd;
Ond, wele Un a duwiol anian!
Er marw ei hunan, f'ei mawrhaed,
I lwyr orchfygu angau a'i allu,
A'i dynu i drengu dan ei draed.

Caiff pawb sydd ynddo'n melus huno
Eu harddel ganddo'n eiddo'r Nef;
A chodi o'r gweryd i ddidrangc fywyd
Etto i wynfyd atto Ef.—

Mi edrycha' pwy sydd yma
Yn y gladdfa, gwaela' gwedd,
Plentyn bychan, deufis oedran :—
Daeth hwn yn fuan iawn i'w fedd;
Cyn profi o chwerwedd na melyswedd,
Y Byd, a'i ffals orwagedd ffôl,
Ei law, fel arwydd o'i atgasrwydd
Atto'n ebrwydd tynnai'n ol;
A chyn anturio ei lestr iddo.
Na mordwyo dros un dôn.
F'aeth yn ddiangol i'r porthladd nefol
O swn y ddaear hudol hón.

Clywaf alar heb ei gymmar,
Neu waedd dreiddgar oddi draw,
Gan deulu cyfan mawr a bychan,
Noethion, egwan, wyth neu naw;
Trom ochenaid plant amddifaid,
A'u clwyf o'u henaid; clywaf hwy,
Ac er mor anodd, fel yn cyd-adrodd;—
"O'n tad a'n maethodd nid yw mwy!
"Yn iach gyssuron, na chyfeillion;
"Yn wael a noethion wele ni,
"A didderbyniad!—Na; mae Duw'r cariad
Yn Dad a Cheidwad etto i chwi.—

Yn awr mi wela' fod rhai yma
Ddiwedda'u gyrfa'n ddeuddeg oed;
Plant oedd hyfrydwch rhïeni a'u tegwch
O'u blaen yn dristwch blin a droed;

Er addo'n bwyllus, a chysurus
Y byddent happus ynddynt hwy;
Ond angau a'u siommodd, ac a'u dygodd
Ac ni ail ammododd mwy.
O, mor weigion yw dych'mygion,
Ac amcanion dyfnion dyn,
Holl flodau'i lwyddiant a ddiflanant;—
A disiomiant nid oes un.

Diau'n gorwedd o dan y gareg
Hon mae geneth wiwdeg wedd,
Fu'n dilyn arfer y bŷd, a'i wychder.
Ond p'le mae'i balchder hi'n y bèdd?
P'le mae'r gruddiau glàn eu moddau,
Oedd megis delwau y'ngolwg dŷn!
Trwm fod ei thegwch, a'i phrydferthwch
Yn troi'n llwch truana' llun.
Os amryw ddenodd â'i hymadrodd,
Ei geiriau a'u siommodd, garw swydd;
Er maint a'i hoffodd, un ni lwyddodd;—
Hi a ymguddiodd yma o'u gwydd.

Wele yma fam anwylaf,
O ddawn addfwynaf oedd yn fyw,
Ei phlant bychain sy'n wylofain;—
Eu mynych lefain mwy ni chlyw,
Er aml ddyfod at ei beddrod
Mewn hoff ammod;—ond mae'n ffol
Iddynt ddisgwyl wedi ei harwyl,
Y fath un anwyl fyth yn ol.
Ewch ystyriwch (Pa'm yr wylweh?)
Mai buan y dychwelwch chwi
I'r distawfedd i gyd orwedd
Etto i'w hannedd atti hi.

P'run wyf ai tybied, ynte clywed,
(O! mor galed !) a mawr gŵyn,
Un yn d'wedyd, "O! nid ydyw
I'w sylwi'n fyw, *Cicelia* fwyn!
Ai yma gorwedd un a gerais,
Neu a hoffais i o hyd?
Ai hyn fu diwedd ei hanrhydedd,
Ei dwyn i'w bedd, flodeuyn byd!"
Dos wylofus ddyn, hiraethus,
A galarus yn ei glwy':
Hon a'th garodd, a'th lwyr anghofiodd:
Gwel y modd,—nag wyla mwy.—

Trwm yw sylwiad o'r fath amgylchiad
Ac ymddattodiad cariad cu;
Trymach etto ddyfal gofio,
A myfyrio am a fu:
Megis cysgod, wedi darfod,
I beri syndod, heb wir sail,
Yw'r byd pan gollir cyfaill cywir,
Yn hwn ni welir un o'i ail,
Ond O! am Gyfaill uwch law eraill,
Pan gollo y lleill y gallu o'u llaw!
Y Cyfaill goreu ymhob cystuddiau;
Hwn trwy angau'n ddiau ddaw.

Dyna garreg—dani y gorwedd
Ddyn y llynedd oedd yn llon,
Yr wyf yn cofio un yn cwyno,
Wrth fynych deithio heibio hon:
"Yn iach im' weithian ddim ond cwynfan,
Un man diddan mwy nid oes,
Fy holl hyfrydwch a'm dedwyddwch,
Yn ddu dristwch heddyw a droes.

Y llysiau yn gynnar ddont o'r ddaear,
Yn bur hawddgar," eb yr hi;
" Ond nid yw 'mhriod byth i ddyfod
Etto o'i feddrod attaf fi.

Ai byth a dd'wedais? mi gamsyniais,
Ac a bwysais yn o bell:—
Caf wel'd fy ngharwr ar wedd ei Brynwr,
A rhyw gyflwr llawer gwell,
Un angel hawddgar a'i geilw o'r ddaear;
Ac ni bydd mud na byddar mwy,
Ni all lleng oleu o angylion,
Gwedi yn hon ei gadw yn hwy;
A phan y cyfyd ef o'r gweryd,
Er mor drymllyd yma yw'r drych,
Ceiff wisgo purdeb anfarwoldeb
I drag'wyddoldeb, agwedd wych".

Daccw 'r lleoedd y bu tyrfaoedd
Yn wylo ar gyhoedd lawer gwaith,
Wrth iddynt gyrchu rbyw un o'u teulu,
I ddu oer letty'r ddaear laith,
Rhai'n hiraethgar am frawd neu gydmar,
A chwerwaf alar, neu chwaer fwyn,
Neu rieni am blant yn gwaeddi,
Plant am rieni, o'u colli â'u cwyn;
Ac amryw 'n bruddion am gyfeillion,
(Tyst fu eu cwynion, tostaf cur,)
Er hyny'n gorfod eu rhoi'n y beddrod,
Ac er eu bod i'w caru'n bur.

Pa faint sydd yma yn y gladdfa,
A fu i'w gyrfa'n fywiog iawn;
Ac er hyny gair o'u hanes,
Tra maen a chofrestr mwy ni chawn!

Os pobl enwog a galluog,
A fu galonog efo'u gwlad;
Nid oes gwybodaeth o'u gwroliaeth,
Na dim ystyriaeth; dyma'u stad.
Wel gorphwyswch mewn llonyddwch
Yn nhawelwch llwch y llawr;
A boed agweddiad eich adgyfodiad,
A'i lewyrchiad fel y wawr.

Ofer canu a dych'mygu,
Y bedd yw'n gwely (byddwn gall)
Caethion, rhyddion, bychain, mawrion,
A gwyr beilchion, garw ball,
Pridd yw'n defnydd fel ein gilydd,
Y dewraf sydd ni fydd ef fawr,
I'r pridd dychwelwn pryd na thybiwn,
A llwyr y llithrwn oll i'r llawr.
Mae'n hamser etto heb gwbl dreulio,
O! gwiliwn ymorphwyso'n ffol;
Os â fe ymaith, ni ddaw eilwaith,
Beth anwylfaith, byth yn ol.

Dyma etto dyrfa'n dyfod,—
A mwy o syndod i mi sydd:
Gan mor ddi-ddisgwyl weled arwyl
Un oedd anwyl yn ei ddydd,
Wele'i deulu 'n cyd-ddynesu,
Gan alaru âg unol lef,
A chofio 'n ddyfal mor ddi-anwadal
Oedd ei dadol ofal ef,
Wele'u dagrau, megis ffrydiau,
Yn gwlychu eu hwynebau'n awr,
Tra mae y marw yn trwm orwedd,
I'w uno â llygredd yn y llawr.

Clywaf chwerw waedd y weddw,—
"O! fe fu farw 'mhriod mwyn,
A'i roi mewn daear, mawr yw 'ngalar.
Am fy nghymar mae fy nghwyn,
Megis dyfnion ddwys archollion,
I fy nghalon yw fy nghur,
Darfu ammod dyddiau 'mhriod,
Mwyna'n bod oedd imi'n bur."
O! bydd gysurus, weddw alarus,
A diddanus yn dy Dduw;
Fe ŵyr dy gyflwr; mae'th Achubwr
I ti'n Farnwr etto 'n fyw.

Daethum weithian wedi'r cyfan,
I le diddan dan law Duw;
Do, i'r llannerch y darllenir,
A rhubyddir y rhai byw,
I ochelyd llwybrau ynfyd,
I m'roi'n ddiwyd am y rhan dda,
A thrwy amynedd hyd y diwedd,
Am y rhinwedd a'u mawrha;
Ac y bygythir y rhai anwir,
Mae hwy a gospir am eu gwaith,
A bydd y Duwiol yn drag'wgddol
Gadwedigol, gwedi y daith.

ENGLYN AR UFFERN.

Lle Satan aflan a'i lu—lle go wael,
Lle gelynion Iesu;
Lle'r dial, lle'r llwyr dalu,
Lle'r prudd dän, a lle'r praidd du.

R. M.

CAN FOESOL.

CHWI, ddynion oes dirion, ystyriwch,
O! teimlwch a gwelwch i gyd,
Sy a'ch unig a'ch blysig wych bleser
Yn ngwychder a balchder y byd,—
Rhai boenant, myfyriant am fawredd,
Anrhydedd, gorwagedd, gwir yw!
Daw trallod, flin gawod, i'w gwywo,
Daw angeu sy'n rhwydo pob rhyw
Mor sicr ar fyrder daw'r amser
Cwymp balchder a'i lyfnder i lawr:
Am farw, am farw myfyriwch,—
Gwybyddwch na fyddwch chwi fawr.

Chwi emprwyr, bradychwyr bryd uchel,
Sy'n llwyddo'n mhob rhyfel ar hyd,
Gan ffyrnig droi'n ysig deyrnasoedd,
A miloedd o bobloedd y byd:
Nid arfau, na chostau, na chestyll
A ddichon wrthsefyll eich swydd;
Nid doethion, neu ddynion un ddinas,
Na theyrnas a'ch lluddias o'ch llwydd:
Ond er i'ch ddarostwng teyrnasoedd,
Brenhinoedd, a'u lluoedd i'r llawr,
Am farw, am farw, &c.

Chwi gasglwyr a maelwyr am olud,
Sy'n cym'ryd eich gwynfyd o'ch gwaith;
Prif dyniad a chodiad eich hyder,
Yw caffael iawn fwynder yn faith;

Ac felly breuddwydio am hyfrydwch,
Dedwyddwch, gan heddwch go hir,
Gan garu a dilyn hudoliaeth,
Heb gofio marwolaeth mor wir:
Er casglu a meddu pob moddion,—
Er codi tai gwychion têg wawr,
Am farw, am farw, &c.

Ieuengctyd, am ennyd dymunol,
Sy'n nghanol eich bywiol wych bwyll,
Os addas eich urddas a'ch harddwch,
Ystyriwch eich tegwch a'ch twyll:
Rhyw gnawdol, wael, ddynol, ddiddanwch,
A gwagedd a gerwch i gyd:
Mewn gwammal anwadal ffol nwydau,
Er amled eich breintiau mae'ch bryd,
O! flodau sy o ammodau siomedig,
Yn cwympo mor lithrig i lawr,
Am farw, am farw, &c.

Chwi, nerthol, ddewisol, addaswych,
Wyr dewrwych a harddwych i'w hoed,
Sy'n nghanol blynyddoedd eich cryfder,
O! fyrred yw'r amser a roed;
Rhyw dyniad neu fwriad anfarwol
Yw'ch ymgais wahanol o hyd,
Trwy 'mroddi a chodi'n barchedig,
'N wrthddrychau arbenig i'r byd;
Os hunan a chyfan ddyrchafiad
Yw'ch unig chwennychiad yn awr,
Am farw, am farw, &c.

Nid ydyw y babell ddaearol,
[illegible] 'as barhaol i'r un,

Ac ail i ryw adail wyredig,
O ! mor ddarfodedig yw dyn;
A chwithau, er moethau, wyr methiant,
Yn henaidd ddisiomiant y sydd,
Yn disgwyl eich harwyl, a'ch hiraeth
Am gael gwaredigaeth bob dydd;
Trwm ddelw gwael ludw gweledig,
Eich cyrff sy'n grynedig yn awr;
Am farw, am farw, &c.

Chwi, gleifion, a seilion eich sylwedd,
Sy'n boenus yn gorwedd dan gur,
Heb gysur a llafur y llefwch,
Ond etto gwybyddwch yn bur
Y derfydd dwys gerydd dasg arwaf,
Er dolur creulonaf ei lid;
Pob blinder, pob trawster, pob tristwch,
Rhyw ddiwrnod anghofiwch ynghyd,
Troi'r chwithau i gaerau digerydd,
I orphwys yn llonydd i'r llawr;
Am farw, am farw, &c.

Chwi, dlodion a gwaelion, O, gwelwch,
Sy'n dyodde' di'styrwch, dost iaith,
Gan groesau, trallodau'r byd llidiog,
Blinderog, tymhestlog, a maith;
Eich gafael yn ddyfal addefwch,
A chŵynwch eich c'ledwch a'ch clwy',
Gan ofni trueni tra hynod,
A chroesau'ch cyfarfod yn fwy;
Ond etto, er cymmaint eich aflwydd,
A'ch gw'radwydd annedwydd yn awr,
Am farw, am farw, &c.

O leied i'w gweled a goeliant,
Yn nghanol eu llwyddiant a'u lles,
Bod angeu bob diwrnod yn dyfod,
A'i ddyrnod anorfod yn nes;
Nid nemawr o'u calon sy'n coelio,
Na chwaith yn myfyrio beth fydd,
Terfynau'u gwageddau gogwyddol,
A'r pethau amserol y sydd;
Chwi 'mdrechwyr, 'mafaelwyr am foliant,
Sy'n caru gogoniant têg wawr,
Am farw, am farw, &c.

Mae'r ddaear a galar i'w gweled,
Yn dangos ein tynged gyttun,
Blynyddoedd a misoedd sy'n mesur,
Ein bywyd yn brysur bob un;
Pob llysiau hardd foddau ddarfyddant,
I ni y dangosant ynghyd,
Mai syrthio wna'r babell heb wybod,
Rhyw ddiwrnod, i'r beddrod o'r byd,
Pob unig greuedig greadur,
A dd'wedant mewn ystyr yn awr,
Am farw, am farw, &c.

Mae'n rheidiol wers unol wir syniad,
Os dyma'r dygwyddiad a gawn,
A da ymarweddiad ymroddi
Am oleu'n ein llestri'n gall iawn;
Mor rheidiol ymorol cyn marw,
Am anian a delw Mab Duw,
A gwisgo sancteiddrwydd am danom
I'n cadw fel byddom ni byw;

O chwiliwn, 'mfoynwn yn fanol,
Ffydd dduwiol, dda lesiol, ddilyth
Am farw, am farw myfyriwn,
Lle syrthiwn y byddwn ni byth!

JOHN PARRY.

YR ADERYN.

YR Aderyn gwych a'i dirion gân,
A'i nwyfus ddiddan iaith,
Sy'n llawenhau â'i byngciau'n ber,
Heb lid na chwer'der chwaith;
E' g'weiria'i nyth yn gywrain iawn,
A diwyd gyflawn gais,
O ddydd i ddydd e' fydd yn fwyn,
O lwyn i lwyn â'i lais,
Mor hyfryd ganddo dremio draw,
Gerllaw o gwrr y llwyn,
Ar ei gymmares gynnes gu,
Yn eistedd sy yn dlos i'w thŷ,
Gan ymddifyru'n fwyn;
Mae'n edrych arni i'w hoffi o hyd,
Ni chymmer hawddfyd 'chwaith,
A'i charu o fryd a chywir fron,
Tra'r eistedd hon mewn agwedd llon,
Ya foddlon, er mor faith.

A phan ddel cywion hon yn haid,
Yn weiniaid dani i wau,
I ddyfal borthi 'rhei'ny'n rhydd,
Mor ddiwyd fydd y ddau;

Trafaelio yn mhell, trwy ofal maith,
A'u hymdaith fydd yn hŷ,
I geisio maeth a lluniaeth llon,
I'w cywion bychain cu;
A rhoddi addysg hyddysg iawn,
Naturiol ddawn wnant hwy,
I'w teulu gwael yn hael o hyd,
A'u dysgu ynghyd i drin y byd,
A pha gelfyddyd fwy?
A gwnant eu dysgu fedru ar fyr,
I dreiddio'r awyr draw,
Pob un ar hedfa, rhedfa rydd
A gais heb gudd, ei fwyd a'i fudd,
Drwy froydd yn ddifraw.

Oddiwrth yr *Adar* hawddgar hil,
Yn gynnil dysg a gawn,
Naturiol siamplau goleu i gyd,
O ddull eu diwyd ddawn,
I drin y byd yn ddiwyd ddoeth,
A'i gyfoeth uwchlaw gwall;
Ei geisio a'i ddefnyddio'n iawn,
Yn gyflawn ac yn gall;
Rhieni'n wir a gywir gânt
Hyfforddiad mewn hoff iaith,
O ddull y rhai'n, ddiwallu eu rhyw,
A'u dysgu i fyw'n rhinweddol wiw,
A gwerthfawr yw y gwaith:
Ystyrient, cadwent hyn mewn co',
A'u hymdrech fyddo o hyd,
Ofalu eu dysgu hwy bob dydd,
Er rhoddi'n rhydd, wir fawl drwy ffydd,
I Ben Creawdydd byd. JOHN PARRY.

PENNILLION,

A ddanfonodd John Parry at John Thomas, Pentrefoelas, i ddeisyf hyfforddiad o'r Aipht i Ganan, &c.

AR "HYFRDDWCH Y BRENIN SIOR."

FY mrawd deallus, adnabyddus,
Iawn hyfforddus yn y ffydd,
Ddewisodd ffordd y praidd,
Yn brif-ffordd sanctaidd sydd;
Os aethoch allan o'r Aipht aflan,
Tu a Chanaan fwynlan faith,
A'ch henw yn mhlith y saint,
Anfeidrol gymaint gwaith:—
'Rwyf finnau'n aros eto,
O dan law Phar'o 'n ffol,
A'i dwyll bob dydd, i'm rhwystro'n rhydd,
A'r enaid sydd ar ol:
Pa ffordd yr â i Ganaan dda,
Ni's gwela' o naws gwiw,
Gan d'wyllwch sy'n ei chau,
A rhwystrau o bob rhyw,
Fe'm denir gan eulunod,
Flin sorod aflan swydd,
A'r gelyn cas i Dduw a'i ras,
I'm lluddias o bob llwydd;
Fel hyn yr wy' mewn c'letaf clwy,'
Ofnadwy yw fy nod:
Oddiwrth lywodraeth hwn
O Dduw na fynwn dd'od.

Rhyw amgylchiadau, temtasiwnau,
Amledd saethau, ymladd sydd,
Curasant arnaf fi,
Ond ofnais golli'r dydd:
Ofni etto gael fy nghlwyfo,
Yn y cyffro fel y caeth,
Nid allaf heb ras Duw,
Wrthsefyll unrhyw saeth:
Rwy'n caffael fy nghaethiwo,
A'm rhwydo ymhob rhith,
I dost ystad oer brudd yw'r brad,
A thrist garchariad chwith;
Pa beth a wnaf? i b'le yr âf?
Mae perygl mwyaf pwys,
Ni ddeuwn ni yn fy myw
O wlad y distryw dwys;
Ac weithiau'n meddwl cychwyn
O ffordd y gelyn ffol,
Ond satan sy â'i dwyll yn gry,'
I'm tynnu a'm nesu'n ol:
A minnau'n wan i dd'od i'r lan,
Sydd druan o dan draed,
Pechadur wyf yn wir
A welir yn ei waed.

Er fod cyhoeddiad a chynnygiad,
Crist a'i gariad wiw-rad wawr;
Ei wir ogoniant ef,
Yn llenwi nef a llawr,
Clywed, gweled, methu 'styried,
Werthfawrocced wyrthiau'i ras,
Ac felly dal yn dyn,
A chalon gyndyn gas:

Er fod ei gariad dwyfol,
Fel llesol fêl a llaeth,
Yn llifo'n llon i'r rhai ger bron,
Er moddion, oreu maeth,
Ac Israel Sant yn galw'i blant
Iawn lwyddiant yn y wlad,
A gwir gyhoeddi hedd,
Trugaredd rhinwedd rhad:
Ond etto 'rwyf yn ffaelu
Iawn gredu'n Oen y groes,
Gan fynd yn ol fy chwantau ffol,
Anfuddiol yn fy oes;
Arwydd hyf heb gyraedd hawl,
Mewn gwir effeithiawl ffydd:
Am hyny 'rwyf o hyd,
Yn rhodio â bywyd rhydd.

Rhydd i bechu yn erbyn Iesu,
Gan ddiystyru ei allu ef,
N' weithredol annoeth ran,
Yn ofer dan y Nef;
On'd ydyw'n rhyfedd ei drugaredd,
Gan faint f' anwiredd, duedd dwys,
Fy mod i heddyw'n fyw
Heb oddef unrhyw bwys.
A rhyfedd mor wrthnysig,
A rhyfyg 'rwy'n parhau,
I bechu o hyd â bryntaf bryd,
Wall ynfyd heb wellhau;
Gan fyn'd ar frys yn mlaen â 'mlys,
Anfelus iawn y fael;
Can's diwedd hyn o daith,
Bydd gofid maith i'w gael,

Gan hyny, Frawd cariadus,
Rhowch gyngor pwyllus pur,
I'm hwylio o hyd ar fyr o bryd,
O'r gofid arw gur;
A'm dwyn yn ol o'm llwybrau ffol
I rydd-did nefol ras,
I ddilyn Iesu mwyn,
Er maint yw'r cynllwyn cas.

ATTEBIAD JOHN THOMAS

I

JOHN PARRY.

Y DYN ystyriol, unol enw,
Mi ddeliais sylw'n ddilys iawn,
O'th lythyr cywir call,
Da ddeall yw dy ddawn;
Ond llwyr gamsyniad fu'r amgylchiad,
Dy ymofyniad â myfi,
Sy mewn cadwynau trwch,
Maith d'w'llwch mwy nâ'th di:
Er i mi feddwl ceisio
O ddwylo Pharo' ffoi,
A'r Brenin hedd ger bron o hyd,
Yn dweyd, "Pa bryd y d'oi?"
Dyrysu a wnes, mi dro'is yn ol,
Fel Demas ffol ei daith,

Neu filwr gyflwr gwan,
F'ai'n griddfan dan ei graith,
'Rwy'n gweled byddin Phara'o,
Yn rhodio o ddeutu'r rhwyd,
Heb yn eu pilth, na darllain llith,
Na bendith ar eu bwyd;
Y cwbl o'u dawn yw cablu Dnw.
Yn ngwlad y dystryw du;
Pwy na ddymunai ran
O fewn i'r Ganaan gu?

A phan feddylio dyn fyn'd yno,
Fe geisia Phar'o rwystro'i ran,
Ysgowlio o faes ei go',
A hawdd yw gwyro'r gwan,
Fel blaidd anfwynaidd, bloeddio'n fynych,
Segur ydych, swga rai,
Bygythion chwerwon chwith,
A'u cluro'n mhlith y clai,
Mae'r ffordd yn llawn anialwch,
A d'ryswch llwyr di-draul;
Gwylio'n dost mae'r gelyn du,
A 'chydig sy'n ei chael.
Nid eir trwy'r môr, (mae er trai mawr)
Heb ffyddlon werthfawr ffydd,
Gan natur tynu'n ol,
At beth amserol sydd,
Mae Moab a Meibion Ammon,
Yn ddynion creulon croch;
Caid llawer clwy' yn eu hardel hwy,
Er cyrraedd trwy'r môr coch,
Heb rinwedd doeth arweinydd da,
Y cryna'r gwan ar cry',

Rhag boddi dros ei ben,
Yn yr Iorddonen ddu.

Mae'n syn im' feddwl son am feiddio
Dy iawn hyfforddio yn y ffydd,
A minnau â'm doniau'n dywyll,
Fel canwyll mewn lle cudd;
Os wyt ti'n griddfan tan y tonnau,
A llafar ddagrau, llef ar Dduw,
Mae'n galw ar ol ei blant,
Rhai glywant fyddant fyw;
Y llusern mwyaf llesol
Ddawn rad, i ddynol-ryw,
Yw goleu'r gair, a'i gael ar g'oedd,
Fel pur aberoedd byw:
Chwilia'n ddwys, na choelia ddyn,
Nag unrhyw lun o lais
Ond yr Efengyl bur,
Am gysur yno ymgais,
Mae yma fara i feirwon,
A goleu i'r deillion gael,
Sâmaritan i godi'r gwan,
O'i gyflwr truan gwael:
Mannau'r nef, pe mynnen ni,
I'n gwir ddigoni, a gawn,
Caniadau, pyngciau per,
Lle'r enwir llawer iawn.

Gwledd o freision basgedigion,
I'r Afradlon a ro'i fryd,
I fario arferion ffol,
A'u gado 'nol i gyd:
Corphwysfa i'r blin, a gwin i'r gweiniaid,
Yn nydd y lludded, nawdd i'r lesg,

I gadw dyn yn fyw,
Gwell yw na'r cawell hesg.
Ymysgwyd ac ymwiga,
Prysura oddi yna, ddyn,
Os wyt ti dan amgylchiad gwan,
Di hawl o'th ran dy hun;
Ymdrecha'n drist gael grym gan Grist,
Mae'n gwrando'r athrist rai;
A'i gymmorth ef yn wir,
Yw'r sylfaen glir a sai'.
Dod heibio'r pwys a'r pechod,
Sydd barod swyddau byw,
O dan y nef i'th dynnu'n ol,
A'th ddeol oddiwrth Dduw.
Gwell bod yn sant yn mlith y plant,
Nâ phorthi trachwant ffol;
Ni ddwg holl drysor byd,
Ddawn ynfyd mo ddoe'n ol.

ENGLYNION,

Coffadwriaeth am y diweddar Fardd,

MR. JOHN THOMAS,

PENTREFOELAS.

TRYWANODD, suddodd fel saeth,—drwy f'enaid
Ryw fanwl dystiolaeth,
A honno'n wir, huno wnaeth
Hir noddwr awenyddiaeth.

Och ! hynod, syndod yw sôn,
A gofid, o'i blegyd, blîn ;
Gladdu Bardd iawn hardd a hen,
Y Foelas gynt, felus gân.

Ei gyflawn, fawr ddawn, farddonol,—fanwl
Oedd fwyn a naturiol ;
A'i ddull athrawaidd ollol,
Ceir hyddysg addysg o'i ol.

Fe alwyd i fywoli,—ei enaid
I unol glodfori,
A'r dorf lân hyfryd-lan fri,
Ei Dduw da yn ddi-dewi !

J. PARRY.

Cymmod da hynod a hedd,—i'r enaid
A ranodd gwirionedd ;
Gwr parod â gair puredd,
Aeth o'r byd yn noeth i'r bedd. *R. H.*

BEDD-ARGRAPH,

Mr. Mark Parry, Llanelian.

Tŷ galar, ti a'i gweli,— y cyfaill,
O cofia, sydd iti
Er rhodres a mawrhydri,
Fel hyn bydd dy derfyn di.

Os cyrraeddaist ddysg raddol,—a medrus
Ymadrodd synhwyrol
I ddistawrwydd ystyriol,
Daear fud, y do'i ar f'ol. *J. PARRY.*

YSGRIFEN FEDD.

HOLL froydd, bronydd, a bryniau,—daear
A'i dewis wych dyrau
A'n ddiddym ar fyr ddyddiau,
Fel breuddwydion gweigion gau.

Nid oes wen seren a sa'—'n ei hurddas
O'i harddwch na chwympa,
O wybr serth, obry syrthia
'R lleuad draw, i'r lludw'r â'.

Yna ni hwylia mwyn haulwen—un tro
Mwy'n entrych ffurfafen,
Ni wêl un dyn wed'yn wên,
Llewyrch ei hwyneb llawen.

Dilys nad erys o'n dae'ren—hedyn
O'i hadail ddysgleirwen,
Na hynod wyn nod dan nen,
Nag arwydd o'i magwyren.

Edau wan ydyw einioès,—a diddym
Yw dyddiau dy fer oes;
Na haera cai di hir oes,
Can's dyma, ddyn, derfyn d'oes.

Er dy fod yn rhod anrhydedd—heddyw
'N cynhyddu mewn balchedd,
Doi foru â dy fawredd
O olud byd i waelod bedd.

O! dos, na aros un orig,—gwaedda
Mewn gweddi doddedig,
"Gu Dad, gwna fi'n gadwedig,
"Rhag pechod a'th ddyrnod ddig.

"Arweinied dy wirionedd—fy enaid
"I'th fwynaidd drugaredd,
"Ag if' Ion, o'th gyfiawnedd,
"Dyro hawl yn ngwlad yr hedd."

D. DAVIES, Castell-Hywel.

AWDL I'R GWANWYN.

YN awr, yr arddwr, gwr rhagorol,
A â i'r maes, yn wir rymusol,
I droi â'i aradr yn dêr wrol
Y ddaear lwysaidd î'r wiw lesiol,
A rhoi had fal mae'n rheidiol —i'w harffed
A gà' o'i nodded yn gynnyddol.

Y tymhestloedd, floedd arw flin— hedasant
A'u diserch lais oerflin;
Daeth nefolaidd hafaidd hin,
A glwys agwedd glas egin.

Daeth y Gwanwyn mwyn a mad—i filoedd
Yn felys iawn gennad,
A'i lewyrch yn oleuad
Ar uchelfryn a glyn gwlad.

Yr haul pur araul per eurwawr—bywlon
A'i belydr dysgleirwawr
Sy'n bywhau llysiau y llawr
Trwy ei wiwnerth tirionwawr.

I fywyd dwg yn fuan—yn hoywdeg
Bob hedyn bach egwan;
Ei lygaid glwysfad a glàn
Rydd enaid i wraidd anian..

Y ddaear hygar ei hagwedd—yn awr
Mewn eres orfoledd,
Ei mynwes gynes geinwedd
Egyr hon â gwawr o hedd.

A daw myrdd o bryfed mân —o honi
Yn heinyf iawn allan,
A theimlant, têg lwyddiant glân,
O'u mewn fywyd mwyn fuan.

Mae meillion gwynion ugeiniau,—lliwdeg
Yn dilladu'r caeau;
A gwisgir, paentir pob pau,
Fel Eden â heirdd flodau.

Yn awr, pob gardd, hardd ei hurddas,—gwena
Yn geinwych ac irlas;
Llawn o glod yw pob llwyn glas,
Gosgeddig mewn gwisg addas.

Llawenydd sydd drwy'r llwyni;—gwâr adar,
Yn goreudeg odli;
Clyd fwriad yn clodfori
Awdwr nef a'n daear ni.

Ar y coed daw'r cawodydd—iawn anwyl,
I eneinio'r gwinwydd;
Gwlaw gwresog a rywiog rydd,
Yr eginau ar gynnydd.

Yr hwsmon, dirion, wr da,—ar ei wych
Oreu waith pan sylwa,
Yn wir foddus rhyfedda,
Gwenu'n anwylgu a wna.

Ar foreuddydd
Yn gywreinrydd
Yr uchedydd ar iach aden,
A'i mawl gywydd
Fry i gaerydd
Ion ein llywydd â yn llawen.

Draw y gwelir yn dra golau,—yr ŵyn,
Eirianwedd yn chwarau,
A gwyllt mae eu traed yn gwau,
Bêr anian, ar y bryniau.

Llwyr ddefnyddiwch, tra meddwch, eich moddion,
Oriau ieuengctid a hyfryd hoywfron ;
Neidiwch, byw redwch â ch'lonau brwdion :
Ni welsoch etto, anwyl weision,
Aua' nac eira nac oerion—wyntoedd
A bair ryw gannoedd heb ri' o gŵynion.

Bore einioes yw ;—mae'r bryniau—'n desog,
Dewisaf funudau,
Iach a diddan yw'ch dyddiau,
Mewn hoen boed i'ch eu mwynhau.

Na ragwelwch, wyr gwiwlon,—y gyllell
A'r gwellaif awchlymion,
A dwyn gan ddwylaw dynion
Eich dillad mewn brad o'r bron.

Awr y Gwanwyn ry ugeiniau
Fwynaf loywdwf, o fân flodau ;
Gwyn a llonwawr y gwinllanau,
Gwyrdd a deiliog gardd a dolau.

Yn y Gwanwyn daw'r gu wennol,—loywdeg,
O wledydd estronol ;

Gwestai ydyw gwastadol,
Yr awrhon ar dôn a dôl.

Yn gynnar pob giar, wraig eirian—hapus
Ei hepil try allan;
O'i hol yn llios hoywlan
Y daw'r gwyr â'u diwair gân.

A'i gwiw ewinedd i'w gweinion—lwys blant,
Dwg faethiant, deg foethion:
Daear chwilia drwy 'i chalon
Am bryfed ar lled yn llon.

I rodio mae'n oreudeg—hyd waelod
Y dolydd mwyn irdeg,
A gwrando ar gywreindeg
Lais yr afon dirion dêg.

Yn awr yr adar a gynar ganant
Oll ar y manwydd, lle'r ymunant
Yn briodasol; (manol eu mwyniant)
Mewn bwriad hoywych mwyn baratoant,
Deiau plyf i gadw eu plant—anwylion,
Rai addas gwiwlon, a wir ddysgwyliaut.

Eu hygar annedd a hoyw gywreiniant,
Gwiw eithaf seiri, eu gwaith fesurant,
A chlai a mwswm yn awchlym asiant,
Blew mân a sidan ynghyd osodant?
O foddion oll ganfyddant—fo gweddaidd
Yn lladronaidd i'r unlle dirwynant.

Fwynweis, gwahanol fanau—dewisant
I osod eu teiau;
Rhai'n uchel ar ben prenau.
Rhai mewn llafrwyn a brwyn brau.

Rhag chwerwder a digter dyn
Ceisiant, iawn buchiant bob un
Ryw fan draw na's daw ei dôn,
Er eu mawr gur, na'i sur swn.

Y frân yn yr awyr fry,
Gwiwlwys y gwna ei gwely;
A'r *dryw*'n addas, y gwas gwan,
O'r golwg dan ryw geulan:
Ni welwyd tŷ anwylach,
Cul yw y drws, byrddrws bach,
Rhag bysedd, digllonedd llangc
Gywir ofal, a'i grafangc

Eu had coledda'r adar,
Mal dynion, weis gwirion gwâr:
Eu cynnydd a fydd yn faeth.
Mawr alar eu marwolaeth.

Drwg erchyllwaith,
Hagr elynwaith,
A dyryswaith, wiw dèr weision,
Dwyn eu hethol
Blant iachusol,
Gwywo, bythol, eu gobeithion!

Oer ran y mwyn rieni—yw galar,
Gwaywloes a chaledi,
Llawnion y cwymp o'r llwyni
Dagrau 'nawr i'r llawr yn lli'.

Y fam ar y brigyn fydd,—(gwely oer)
Yn galaru bennydd;
: meibion tirion terydd
wvlgu, darfu eu dydd.

Gan ofidio,
Dwys o'ch'neidio,
Troi ac wylo, tyr y galon
Drom afionydd,
Ar y gwinwydd,
Wynias gerydd, yn ysgyrion.—

Tirion yw holl naturiaeth;—mor gynes
Mor gain yw'r gre'digaeth;
Holwn trwy ba law helaeth,
Mor fwyndeg, mor dêg y daeth.

A gawn ni sylwi ar gynnoesolion
Belydr yr haul, fawrgu araul goron;
A gawn ni weled mor hoywgain wiwlon
Gannoedd o elltydd gyneu oedd wylltion,
A glwywsawr ddolydd gleision,—heb roddi
Da fawl i Geli â dyfal galon?

Am a feddwn
Ac a welwn
Iddo dygwn haeddedigol
Glod yn barchus,
Ein Tad cofus
Iawn haelionus, anelynol.

Trwy ei gennad,
A'i ordeiniad, Ior da union,
Pob hyfrydwch
Neu ddiddanwch ddaw i ddynion.

Heb weniaith gwedd in' beunydd—dy gyfiawn
Adgofio, Duw Ddofydd;
Gwanwyn a phob rhyw gynnydd,
Tad yr hael, tydi a'i rhydd.

Gwelir di, Geli gwiwlan,—yn yr ia,
Yn yr awel fwynlan,
Yng ngwellt, dwr, yng ngwyllt daran,
Cawad a mellt, ac ôd mân.

Daniel ab Ieuan Ddu, o Geredigion.

GALWAD I BECHADUR.

MAE galwad heddyw yn parhau,
I mi a'r beiau mawr;
A chroesaw etto i godi'm llef,
Fry tu a'r nef yn awr,
Trwy'r Arch-offeiriad gwych di-ffael,
Sydd wedi ei gael yn un digoll:
Difai i Dduw yw yn ddiau,
Difai i ninnau oll.

Trowch attaf fi, medd Duw o hyd,
Holl gyrau'r byd sy'n gaeth:
Fel y'ch achuber rhag fy llid;
A phrofi gofid gwaeth;
Pe byddai eich pechodau chwi
Fel porphor wedi cochi; cewch
Eich gwneyd mor lân a'r eira gwyn;
Yn sydyn cydnesewch.

Mae'r Arglwydd heddyw 'n galw arg'oedd,
O! dewch i'r dyfroedd, dewch;
Bawb sy'n sychedu am ddyfroedd byw;
Digonedd Duw a gewch:
Cewch yfed ffrwyth gwinwydden bur,
A gwleddoedd cariad heb ddim cur;
Gadewch holl gibau, seigiau sur,
Y moch a'u sawyr mwy.

EDWARD JONES.

PENNILLION,

Ystyriaethau ar waith dwyfol Ragluniaeth, yn y flwyddyn 1817.

Ar "Ddifyrwch Gwyr y Gogledd."

DAETH llif o ofid llawn,
A throion trymion iawn,
I'r deyrnas hon; oer gwynion drwyddi gawn,
Tlodion, gwaelion, dyma'r gwir,
A'r crefftwyr dewrion trwy ein tir,
A'r Ffarmwyr sydd yn soddi
O dan y c'ledi clir.

Wel llifo wnaeth y llyn,
Sef gwasgfa dalfa dynn,
I'n rhoddi ni dan g'ledi drwy bob glynn,
A'n beiau ninnau sydd yn awr
Yn crogi fel cymmylau mawr,
Taranau Duw sy'n treiddio,
A barn yn llifo i'r llawr.

Am gydio tir wrth dir,
Mae gwaeau mewn modd gwir,
Yn ngair Duw Tri, er cael eu hoedi'n hir,
A'u loesau trymion oerion hwy,
Sy'n gwneyd y trethi'n llawer mwy,
Trwy ddigio Duw, oedd dyner,
Daeth blinder i bob plwy.

Gwnaed pedwar tyddyn tir,
Yn unrhyw Ffarm yn wir,
Mewn amryw wlad, er cael gwaharddiad hir,
A rhai o'r teulu'n soddi sydd,
Trwy orfod gweithio wrth y dydd,
Tra mae y lleill mewn eisiau,
A'u bronau oll yn brudd.

A hwythau'r Ffarmwyr mawr,
Sy'n cael eu dwyn i lawr,
Gan Frenhin hedd, a newid gwedd eu gwawr,
Er gwyched bryted oedd eu bryd,
A'u gwisgoedd glân yn harddwych glyd,
Bu rhai'n â'u bwyd yn foethus
Daeth poenus dro i'r byd.

Fe fyn ein Iesu mawr
Ein huchel drem i lawr,
Nid allwn ni' mo'i dal i fynu fawr:
Ran gweithio etto y mae E',
O blaid cyfreithiau pur y Ne':
Darostwng mawr a bychan,
I lawr i'w lwyr-lân le.

Dewch holl drigolion byd,
Mewn edifeiriol fryd;
At Dduw heb goll, fe'ch gwared oll i gyd.
Trwy fywiol ffydd, O, treiwn ffoi,
Tra mae trugaredd rhad yn rhoi,
Dydd gras a drws agored
I bechaduriaid droi.

Doethineb sydd â chri,
Trowch wrth fy ngerydd i;
Wel dyma'r pryd daw ysbryd Duw i chwi;

I ddangos ei ewyllys da,
Iachau eich gwrthgiliadau wna',
Cewch y wybodaeth buredd:
A'i rhinwedd a barhâ.

O, deuwch yn gyttun,
At orsedd Duw ei hun;
Mewn isel wedd, yn buredd iawn bob un,
Drwy'r unig Iôr ein Pôr a'n Pen,
Yr hwn a'n prynodd ar y pren;
Doed i ni rad drugaredd,
Amynedd oll. Amen.

R HUMPHREYS.

PENNILLION,

A wnaed ar ddymuniad y Parch. D. Williams, i garedigrwydd Mrs. Price, o'r Defynnog, ynghyd a sylw ar odidawgrwydd ei thŷ harddwych.

WRTH deithio 'n flinderog, (a'r boreu 'n wlybyrog,)
I Frodir Marcheiniog, tra serchog yw'r sir;
Rhwng bronydd a'r bryniau, i'r Defynnog dof finau,
At flodau da hadau'r Deheudir.

Caf yno dderbyniad ac eitha roesawiad,
Sef arwydd o'u cariad a'u bwriad di-ball,
I wneuthnr yn ebrwydd orchymyn yr Arglwydd,
Fel mynnent gain arwydd gan arall.

Gerllaw yn y dreflan y gwelwn dŷ gwiwlan,
Gardd lysiau oddi allan yn datgan yn dêg,
Fod pob peth oedd ynddo yn harddwych ddysgleirio,
Heb ddim i'w llychwino'n ychwaneg.

A'r wraig foneddigedd agorodd ei hannedd,
Rhodd fwyd ac ymgeledd yn rhyfedd i'm rhan,
A gwely cysurus i deithiwr blinderus,
Ces ynddo le happus i heppian.

A'r bore a wawriodd, a minnau a welodd,
Tŷ odiaeth hardd ydoedd, 'stafelloedd di-fai:
A dau o barlyrau mor burlan a'r purlau,
A'u dodrefn dwys claerwedd disgleiriai!

Wrth edrych o'm deutu, a'm hawen yn cynnu,
A'm calon heb gelu yn llamu'n y lle,
Nes dyfod o'm tafod i draethu myfyrdod,
Mewn geiriau pur barod y bore'.

I'r wreigan rywiog'edd dymunaf yn buredd,
Boed gras a thrugaredd yn rhyfedd i'w rhan:
Rhoed Ysbryd Duw Is'rel bob iachus ddawn uchel,
I ddyfod i'w gaf'el yn gyfan. *R. H.*

ENGLYN I RAGFARN.

Aed rhagfarn gadarn i gyd—o Walia
I waelod uffernfyd;
Ac mal tarth ein gwarth a gwŷd
Nofio oddiwrthym hefyd. D. ap Gwilym

CAN,

Yn dangos dechreuad, ymledaeniad, a'r niwed a wnaeth Hunan, Cenfigen, a Rhagfarn yn y byd: drwy ddychymmyg o Hen Wr a'i ddwy Ferch.

Pob enaid am ennyd wel diwyd wrandewch
'Ran hanes am *Hunan* yn gyfan a gewch:
Ei dad oedd archangel aer uchel i'r ne',
Ac yno cenhedlwyd llawn fagwyd efe.

Wrth weled bod graddau sêr * bore mor bur,
Yn canu i'r Gogonedd † o gyrraedd pob cur:
Ymgododd un angel yn uchel ei nyth,
Rhag canu mawl helaeth i bennaeth am byth.

A'i 'nadliad cenhedlodd meddyliodd mai e',
A weddai fod beunydd yn llywydd i'r lle,
Ac yna daeth *Hunan* yn llydan i'r llu,
Am ostwng yn ystwyth holl dylwyth y tŷ.

Pan gynta'r ymgododd clafychodd yn fawr,
Nes *geni* 'r Ferch henaf, mi'i henwaf hi'n awr!
Hon ydyw *Cenfigen*, a'i chynnen yn gas,
Am ddifa'r nef oleu trwy gleddau tra glas!

Nes d'wedyd o *Gabriel* ‡ drwy dyner air Duw,
Os rhyfel ddechreuant ni byddant hwy byw, §
'Nawr ganwyd y *Rhagfarn* o'r *Hunan* mawr hael,
Hon fynai 'mddyrchafu a ffynnu'n ddiffael. ‖

Ond Duw ni's goddefodd,—gollyngodd y llu,
O ganol dedwyddwch i d'w'llwch mawr du!

* Angylion Job 38, 7. † Gogoneddus Dduw. ‡ Luc 1, 26. § Ni chant ddedwyddwch. ‖ Ni fynnai wrando ar Gabriel.

I eigion y fagddu a'r cyni fyd caeth,
Cenfigen a *Rhagfarn*, a'r *Hunan* yr aeth.

A'u hanian oedd ammhur mewn gwewyr a gwrid,
Yn eithaf digysur, mewn llafur a llid,
Cenfigen a *Rhagfarn*, a'r *Hunan* un rhyw,
Fu yno yn poeni nes profi cael briw.

Wrth weled fod *Adda* a'r wraig bura'n byw,
Eu deuwedd yn loyw ar ddelw'r gwir Dduw;
Cenfigen fawr atgas modd gwynias fu'n gwau!
Gan annog yr *Hunan* i 'mddiddan â'r ddau.

A hwn pan lefarodd a ranodd o'i ryw,
Iw hannog i 'mgodi i dorri gair Duw;
Daeth *Rhagfarn* yn wisgi i'w llenwi â llid,
Yn erbyn bygythion Duw cyfion i gyd.

A thorri'r gorchymyn wnaent wed'yn heb wad
Nes mynd i drueni, drwy brofi y brad!
O'i gariad cynhyrfodd tosturiodd Duw Dad,
Rh'odd Crist i waredu rhai hyny yn rhad!

Pan gawsant hwy eilwaith lawn obaith cael byw,
Dechreu'sant aberthu ac addoli'r gwir Dduw;
Cenfigen a *Rhagfarn*, a'r *Hunan* yn rhydd,
O'u deutu fu'n rhodio i'w temtio bob dydd.

A *Chain*, a'i frawd *Abel* fu'n dawel 'run dydd,
Yn offrwm i'r cyfion eu rhoddion yn rhydd,
I Gain yr aeth *Hunan* mor fuan yn fawr,
A *Rhagfarn* a'i daliodd hi'i llethodd i'r llewr.

Cenfigen a'i llanwodd, fe brifiodd yn brudd,
Nes lladd ei frawd cyfion, oedd ffyddlon mewn ffydd,

Gwnaed *Hunan* a'i *Ferched* wrth weled fath
Yn dän o lawenydd annedwydd yn un. (wŷn

Aent etto oddeutu gan boeni trwy'r byd,
I'w godi i wag-hyder a balchder bob pryd.
Nes hudo pob calon o'r dynion—ond wyth,
Rhag credu, mae'n al'eth, na phregeth na'i ffrwyth.

Duw union am hynny, wnai foddi'r hen fyd;
Wyth cyfiawn a gafodd, fe'i cadwodd hwy gyd
Rhag c'ledi mewn clydwch Duw'r heddwch a'i rhodd,
I'w dwyn i fyd newydd drwy fedydd o'i fodd ‡

Er boddi rhai diriaid, gwyr gweiniaid er gwŷn
Pob peth yn ddi-nodded, mewn dwned a dyn!
Daeth *Hunan* a'i *F*erched, er dyfned y dw'r,
Oll drwyddo heb foddi, na soddi, mae'n siwr!

'Nol treio o'r diluw, rhai annuw ymrodd,
I ddwyn *Noa* wiwlan yn fuan un fodd;
Caent hwn i ymnoethi trwy feddwi ar fai,
Cam-ddefod yn ddyfal ga'dd dreial didrai §

Ca'dd H*unan* a'i *Ferched* dderbyniad bob un,
Gan frodyr i Joseph—oedd lanwaith ei lun;
Nes gwneud i'r rhai hyny ymgodi i gyd,
Trwy wynias ennynu, i'w boeni o'r byd!

Ca'dd *Joseph*, wr gwaredd, ryw ryfedd sarhad,
A phrofi dwfn adwyth gan dylwyth ei dad:
Trwy effaith *Cenfigen* y bachgen oedd bur,
Ga'dd droiau pur rhyfedd a gorwedd dan gur;

Rhodd *Dathan*, *Abiram*, a *Chora* iach wr,
I H*unan* a'i *Ferched* roesawied rhy siwr:

Pedr 3, 21. § Sef bod a'i hil hyd heydyw dan farn, Gen. 9, 95

A'u llid a gynneuodd, ehedodd o hyd,
At *Moses* ac *Aaron*, a'r gwron i gyd!

Am iddynt ymroddi gan dorri gair Duw,
Fe'u taflodd mewn effaith i uffern yn fyw!
A'i ddig a gynneuodd, Fe lidiodd heb lai,
Wrth ddynion direswm am offrwm ar fai

Cadd *Hunan* a'i *Ferched* hawdd gweled y gwall
Falch galon un *Hunan*, mor llydan a'r llall;
I geisio dybenu ſwyn *Fordecai* cu
O lys Ahasferus llafurus a fu!

Diareb a wiriodd a lledodd y llun,
A Lladdodd *Cenſigen* ei pherchen bob un:
Rhodd *Ddaniel* wr hynod i'r llewod, o'r llid,
Ond angeu a'u daliodd, a'u bwriodd o'r byd.

Cil-gwthiodd y llangeiau i'r fflamiau'n hoff hŷ,
A'r dynion a'u taflodd ceryddodd Duw cry,
Er hynny ni pheidiodd ehedodd o hyd,
Drwy drachwant i drechu gan boeni y byd.

Aeth *Hunan*, hawdd canfod, at *Herod* ei hun,
A'i *Ferched* oedd heini i'w boeni bob un,
Nes lladd y babanod, O! lewod di lun,
Gan feddwl dibennu ein Iesu yn un.

Cenſigen a *Rhagfarn* a *Hunan* o hyd,
A lanwodd bob calon anghyfion ynghyd,
Nes iddynt ymuno croeshoelio, mae'n syn,
Yr Iesu, ein Meddyg mor hyllig a hyn.

Cenſigen a *Rhagfarn* a'r *Hunan* ar hyd,
Sy'n arfer cynhyrfu gan boeni gwyr byd,
Trwy annog hyd heno, ymbleidio ymhob plwy',
Nas gallaf yn gynes roi'r hanes fawr hwy.

Gadawant o'r neilldu ymdrechu yn drist,
Am gyraedd trugaredd yn groywedd trwy Grist
Ond cyraedd gwag eiriau a phynciau o'u ffydd
Heb Ysbryd yr Iesu i'w rhoddi hwy'n rhydd

Mae llawer yn Nghymru yn ffynu yn ffol,
Gan adael y sylwedd mor ryfedd ar ol,
Heb gariad hyd heno i'w cario o'u cur,
Nac undeb â'u Ceidwad, na'u bwriad yn bur!

A'r *Hunan* fel taran sy'n clecian yn glir,
Yn berwi rhwng dwyfron rhai dynion ar dir:
Am fod yn benadur, yn bybyr bob un, Chun
Ymladdant â'r Arglwydd Dduw hylwydd ei

Cenfigen ymgododd ehedodd o hyd,
Fel mellten fawr lydan modd buan trwy'r byd,
Nes codi gwyr gweigion lloer ddynion llwyr ddall,
I farnu rhai union drwy feibion i'r fall

A rhagfarn a ledodd, hi lifodd ar led,
I lenwi'r holl ddynion ddewr galon ddi-gred,
Ag eithaf llidiawgrwydd i'r dedwydd Dduw Dad
Am beri daioni draw ledu drwy'r wlad.

Mae Hunan a'i ferched yn 'hedeg o hyd,
A'u bwriad yn benna' ddyfetha'r holl fyd,
Doed Ysbryd yr Iesu i'w rhoddi yn rhydd,
Ffydd, gobaith, a chariad, danfoniad Duw fydd.

O! gwared yn uniawn ein cyfiawn Dduw cu,
Bob enaid o dristwch a'r t'w'llwch oer du,
Cawn ganu i'r gogoned, Duw bydded yn ben,
A rhwymed ri annwn ddymunwn. Amen. R. H.

DANGOSEG

	Tu dal.
ARWEINIAD i mewn.	3
Pedwar Englyn i'r Wenynen.	4
Annogaeth i Ddiwydrwydd.	5
Englynion o Goffadwriaeth am T. Edwards, Nant.	6
Cywydd, yn coffa dyoddefaint Crist.	7
Cywydd y Greadigaeth.	9
Cyffes Huw Morus ar ei glaf wely.	12
Bedd-Argraph Huw Morys	16
Englyn ar Fedd Merch a elwid Gwen.	16
Caniad yr Amser.	17
Englyn ar Amser.	19
Englynion Coffadwriaeth J. Thomas	20
Hymn, M. S. Galwad i'r Winllan	20
Galar-gwyn, ar ol Merch ieuangc lân	21
Cyffes ystyriol, sef Cân ar ddwyfol Ragluniaeth	22
Mawl-Gân Newydd, ar Byngcian sylfaenol Crefydd.	26
Englyn ar Fedd Gwraig ddiwyd	28
Emyn Newydd ar Nadolig Crist	29
Cywydd y Farn	31
Englynion i Dduw	36
Dyledswydd a doethineb dyn yw bod yn foddlon i ewyllys ei Greawdwr.	37
Cân, a ganwyd Nos Galan, 1815.	38
Englynion ar werthfawrogrwydd Amser	42
Englyn i'r Bedd	42
Cerdd Newydd i'n hanog i ddychwelyd at Dduw	43
Englyn ar wagedd y Byd	47
Englynion i'n hannog i ddychwelyd at Dduw	48
Englynion a wnaed mewn Mynwent,	48
Cyngor i Wr Ieuaugc.	49
Gweddi y Bardd.	50
Myfyrdod mewn Mynwent.	51
Englyn ar Uffern	64
Cân foesol.	65
Yr Aderyn.	69
Pennillion a ddanfonodd John Parry at J. Thomas.	71
Attebiad J. Thomas i J. Parry.	74
Englynion Coffadwriaeth J. Thomas	77
Bedd-Argraph Mark Parry	78
Ysgrifen Fedd	79
Awdl i'r Gwanwyn.	80
Galwad i bechadur.	86
Pennillion, ystyriaethau ar Ddwyfol Ragluniaeth.	87
Pennillion am garedigrwydd Mrs. Price, Defynog.	89
Englyn i Ragfarn.	90
Cân, am Genûgen, Hunan, a Rhagfarn.	91

LLANRWST, ARGRFFWYD GAN J. JONES.